# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 161 CHWEFROR 1990

## *Mae tynged yr iaith yn ein dwylo!*

(Tudalen 2)




*Llun – Biz 8*

CYNNWYS

Colofn Siân ... 3
Gwenfô ...... 5
Sêr .......... 7
Bwth Ruth .... 12
Y Calendar ... 15
Croesair .... 19

YN RHAD AC AM DDIM

# I'R GAD

## MAE TYNGED YR IAITH YN EIN DWYLO

**Dyna ganlyniad arolwg Athrawon Carter ac Aitcheson o Goleg Aberystwyth ar gyfer rhaglen 'Week In, Week Out'. Trwy lwyddiant ysgolion ac addysg Gymraeg yn y de-ddwyrain y sicrheir, medden nhw, dyfiant o 12% yn y rhai sydd yn siarad Cymraeg dros yr ugain mlynedd nesaf. Hebddynt, byddai ein plant yn wynebu tranc yr iaith.**

Ond gweld mewn drych yr ydym a hynny'n aneglur. Nid ar ddadansoddiad yr enillir brwydr yr iaith. Nac wrth newid deddf gwlad chwaith, er mor angenrheidiol yw hynny. Ni allwn dderbyn colli cadarnleoedd y Gymraeg – hyd yn oed "Llangaethau" fel yr ynganwyd yr enw gan sylwebydd BBC/Wales. Anhepgor yw ennill plant yr ymfudwyr i fod yn Gymry Cymraeg pybyr. Ni fodlonwn ar lai!

Mae amser i bob peth, medde'r Gair. I ni yn y de ddwyrain mae'n amser grymuso ein hymdrechion dros yr iaith. Nid digon yw cefnogi gwaith ein hysgolion. Rhaid mynu adnoddau teilwng iddynt a chydnabyddiaeth sydd yn cydnabod ymdrechion ein hathrawon. Nawr yw'r amser addunedu, nid am flwyddyn ond am ddegawd ac oes, i ymestyn defnydd ein hiaith a chreu cymdeithas Gymraeg i groesawu'n plant wedi iddynt adael yr ysgol. Mae gan bob mudiad ei ddyletswydd – yr Eglwys trwy genhadu a denu'r miloedd yn lle'r cannoedd – y clybiau a'r cymdeithasau trwy ddarparu gweithgareddau hamdden fydd yn apelio at bob un o'n pobl ifanc. Yn fwyaf oll, cyfrifoldeb pob unigolyn yn cyfrannu at yr ymgyrch drwy fynnu bod y siopwr bach annwyl nid yn unig yn derbyn ein sieciau ond yn cyflogi rhai sy'n medru ateb ein gofynion yn ein hiaith. Mae'r dyfodol yn glir i ni beth bynnag am ddarogan y proffwydi cyfoes. I'r gad.

**RHW**




# BETHEL PENARTH

"Fory-a-ddilyn-heddiw-a-ddilyn-ddoe" fu hi yn hanes Bethel Penarth noson Rhagfyr 27ain. Drwy'r nos, o saith tan saith y bore bu rhyw bump ar hugain o ieuenctid yr eglwys yn chwarae tenis bwrdd – a'r arian nawdd yn mynd tuag at gyfraniad yr eglwys i Apêl Canolbarth America Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Rhannwyd y noson yn saith deg sesiwn o ddeg munud yr un, weithiau roedd dau wrth y bwrdd, dro arall bedwar, gyda chefnogwyr o blith yr aelodau hŷn a rhieni yn annog ac yn cyd-chwarae ar dro.

Roedd hi'n rhyfedd clywed 'ghetto-blaster' yn llanw'r capel â swn; lle bu'r sedd fawr yn llawn sachau cysgu; a seiadu ymhlith ieuenctid yn lle sŵn pregeth. Yn y festri, rhieni yn chwarae "Pictionary" tra bo cŵn-poeth yn berwi a choffi di-ddiwedd yn ffrwtian yn y gegin. Methwyd cael chips, roedd y siop wedi cau!

Ond yn ogystal â chwarae tenis mae'n siwr mai bendith fwyaf y noson oedd y gwmniaeth a'r cymdeithasau – a chrybwyll Canolbarth America bob yn hyn a hyn; yn ogystal â dadlau sawl'n'sydd mewn tenis!

Wedi casglu arian y noddwyr, cafwyd swm o rywfil o bunnoedd tuag at Apêl Canolbarth America. Diolch i bawb a fu wrthi'n chwarae, yn aros yn effro, ac yn trefnu'r cyfan.

### Y PLYGAIN

Yn nistawrwydd oriau mân y bore ar ddydd Nadolig, daeth nifer o aelodau a ffrindiau'r achos ynghyd yng nghapel Bethel i gynnal gwasanaeth "Y Plygain" dan arweiniad y gweinidog Y Parch Meurwyn Williams. Cafwyd oedfa arbennig iawn a bendithion y cymun boreol yn ymledu dros y capel bach ar gychwyn Gŵyl y Geni.

# DYDDIADUR GERAINT WILLIAMS

### Y PEDWERYDD DIWRNOD

Aeth Maria a minne i'r dre i weld y farchnad agored. Mae'r rhain yn cael eu cynnal yng nghyffiniau'r Eglwys. Tybed pa mor hen yw'r traddodiad yma? Roedd yr awyrgylch yno yn un gyfeillgar iawn i bobl yr ardal, pawb yn cwrdd yn ffrindiau, a phawb yn adnabod y gwerthwyr. Prynodd Maria lysiau a ffrwythau. Ar y ffordd yn ôl cefais gyfarfod â chwpwl diddorol yn eu cartref. Ffrindiau Maria oeddynt, prifathro coleg hyfforddi a'i wraig.

### Y PUMED DIWRNOD

Deffro a chofio un o'm breuddwydion, a chofio, er syndod mawr, imi siarad mewn Almaeneg yn y freuddwyd! Maen nhw'n dweud os ydych yn breuddwydio mewn iaith estron eich bod yn rhugl. Nid yw hynny'n wir bob tro!

Heddiw mynd i'r dre a gweld Eglwys Gadeiriol Osnabruck. Adeilad hen iawn, fe gododd Charllemagne esgobaeth yno yn yr wythfed ganrif. Adeilad plaen iawn, nodweddiadol o adeiladau'r Almaen, yr unig addurn oedd pulpud baroque a cherflun o'r Forwyn Fair mewn tywodfaen. Hefyd roedd llun mawr o'r Iesu yng ngardd Gethsemane. Yna heibio criw o gantorion a dawnswyr y tu allan i arddangosfa gan y llynges nes dod at Neuadd y Ddinas a mynd i rai o'r ystafelloedd a gweld llawer o hen lawysgrifau mewn Lladin yn ymwneud â hanes y Ddinas. Am ganrifoedd esgobion oedd yn rhedeg y dre, ond yna cymerodd y bobl drosodd. Mae camlas yn cysylltu'r ddinas â môr y Baltic. Mae Osnabruck yn Saxony-Is ac yn weddol agos i Hanover a Bremen.

Taith yn ôl adref yn y bws, taith gyffrous, llawer o sgwrsio ac yna aeth y gyrrwr y ffordd anghywir, a bu llawer o weiddi a chwerthin.

Gyda'r nos sgwrsio â Gunther, sut y daeth i ddysgu Saesneg. Dywedodd ei fod yn lwcus i gael athro da. Ar ôl i'r Naziaid ddod i rym ymroddodd i ddarllen mwy a mwy o Saesneg, er mwyn ceisio dianc o'r propoganda ar y Radio a'r papurau. Dyma'r tro cyntaf iddo siarad am gyfnod y rhyfel, heblaw dweud ei fod wedi treulio'r rhyfel yn Ynysoedd y Sianel.

### CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn yn ddwys â Diana Owen, Radur, ar farwolaeth ei mam ychydig ddyddiau cyn yn Nadolig. Bu'n wael am beth amser a Diana a Glyn yn fawr eu gofal ohoni.

# COLOFN SHÂN

**Am flynyddoedd bum yn cael gwersi canu efo clamp o gymeriad hynod iawn. Roedd ei Saesneg yn glapiog y tu hwnt er iddi dreulio blynyddoedd lawer yn byw yn Nhrealaw yn y Rhondda. Ond unwaith wedi croesi ei rhiniog roedd rhywun yn ymwybodol o fod wedi camu i gornel fechan o Hwngari. Dodrefn tywyll trwm a phlatiau a jygiau enfawr yn addurno'r lle. Cefais sawl bendith o fod yn ei chwmni, ar wahân i ddisgyblaeth llais.**



Bu'n gantores enwog yn ei dydd, ond daeth y cyfan i ben ar doriad yr ail ryfel byd ac yn fuan wedyn cafodd lawdriniaeth thyroid. Gadawodd hynny hi heb lais, siaradai â llais dwfn fel dyn ac ni allai ganu nodyn. Ond roedd rhyw harddwch arbennig yn ei hagwedd at fywyd. Cofiaf iddi fynnu rhoi gwersi canu yn rhad ac am ddim i Elin am y credai bod yn rhaid i bob offerynnwr ganu ei offeryn yn hytrach na'i chwarae.

Y mae hi wedi bod ar fy meddwl yn gyson yn ystod yr wythnosau dwytha' 'ma. Be feddyliai hi o'i hannwyl Hwngari heddiw? Collodd hi a'i theulu bopeth gan 'i cornelu i ychydig ystafelloedd yn y plasdy a oedd yn eiddo iddynt. Drwy bopeth ni chollodd ei hurddas cynhenid. Siŵr gen i y byddai'n llawenhau heddiw. Cofiaf adeg yr Arwisgiad i un o'i disgyblion golli sawl gwers am ei bod yn y carchar yn dilyn protest gan Gymdeithas yr Iaith. Ni allai amgyffred y fath beth, na deall cymhellion y Gymdeithas, a'i sylw oedd "For every Russian soldier on our streets we would love a Prince Charles!"

Oes, mae 'na gyffroadau mawr yn yr hen fyd 'ma a ninnau o bosib yn rhy agos at y digwyddiadau i weld eu harwyddocâd. Yn nes adra tybed beth fydd ein tynged ni yn y nawdegau? Amhosib proffwydo, amhosib rhagweld, a diolch am hynny ar un olwg. Does dim amdani ond rhygnu 'mlaen yn ôl ein harfer o gobeithio'r gorau i ni i gyd. Dyna a wnaeth Madam Hilger trwy bob anhawster, fe gadwodd fflam fechan o Hwngari ynghyn mewn cornel o Gwm Rhondda ac y mae cofio amdani yn rhoi hwb ac ysbrydiaeth i minnau wynebu'r ddegawd nesaf 'ma, **Gwir y ddihareb mai "gwell yw cynnau cannwyll fechan na melltithio'r tywyllwch".**

## CYDYMDEIMLWN

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gareth ac Elizabeth Miles ar eu profedigaeth yn ddiweddar o golli tad. Bydd yn golled nid yn unig i'r teulu ond i gymdogaeth gyfan. Mawr yw parch yr ardal i'r diweddar Ddoctor Alwyn Miles. Cydymdeimlwn hefyd â'i weddw a Gillian.

## ONI FYDDAI'N BRAF CAEL . . .

Oni fyddai'n braf cael gweld ein prifddinas yn cydnabod ar goedd ein hiaith? Ni fyddai gweld y cyfarchion Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda yn Neuadd Dewi Sant, y Ganolfan Siopa ac ar furiau'r Castell yn gwneud dim ond lles i ddinasyddion Caerdydd ac i'r lluoedd ymwelwyr.


# YN EISIAU

**Person call a chyfrifol i'w rhannu rhwng dau deulu cyfagos ym Mhenylan, i warchod y plant ar drefniant hyblyg.**
**37 awr y wythnos – Byw mas – £80**
**Profiad yn fanteisiol**
**Ffoniwch am sgwrs a manylion**

**(0222) 484271**



## CLWB IFOR BACH

**HEOL WOMANBY, CAERDYDD, CF1 2BR**
**FFÔN: (0222) 232199**

| | |
|---|---|
| Nos Lun, Mawrth | — 7y.h. – 11 y.h. |
| Nos Fercher, Iau | — 7 y.h. – 12.30 y.b. |
| Nos Wener | — 7 y.h. – 2.00 y.b. |
| Dydd Sadwrn | — 12.30 y.p. – 2.00 y.b. |

Croeso cynnes i'r teulu cyfan Brynhawn dydd Sadwrn.
Byrbrydiau ar gael!
Diddordeb?
Clwb Rygbi Ifor Bach ◊ Clwb Criced Ifor Bach
Cwmni Drama y Fuwch Goch ◊ Dawnswyr y Twrch Trwyth
Dosbarthiadau Cymraeg ◊ Cwisiau bob yn ail nos Fawrth
Llogi'r Neuadd neu'r Lolfa am ddawns, cyfarfod?
Cysyllter â'r Rheolwr am fanylion pellach.

*Clwb Cymraeg yn y Brifddinas*



## MANPOWER

**'Yr Arbenigwyr Penodi'**

**PAM MAE EIN DULL NI'N WAHANOL?**

Nid yn eich cymwysterau chi'n unig mae ein diddordeb ni. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich uchelgais a'ch posibiliadau Rydyn ni'n hoffi rhoi pobol mewn swyddi maen nhw'n eu mwynhau.

**PAM MAE BOD YN WEITHIWR MANPOWER DROS DRO YN WAHANOL?**

Rydyn ni'n meddwl am ein gweithwyr dros dro fel ffrindiau yn ogystal â gweithwyr. Maen nhw'n cael cyfraddau da gyda thâl gwyliau, tâl gwyliau'r banc a llawer o fuddiannau eraill, gan gynnwys cyrsiau hyfforddiant PG a dathlygu medrau yn rhad ac am ddim.

**PAM MAE CAEL SWYDD BARHAOL DRWY MANPOWER YN WAHANOL?**

Mae gennym systemau unigryw i gysylltu swyddi a elwir yn Ultrasearch. Mae'n fwy gofalus wrth chwilio'r swydd newydd rych chi eisiau.

**Os byddwch am gael gyrfa fwy lliwgar mewn gwaith swyddfa dros dro neu barhaol, gall Manpower wneud llawer o wahaniaeth i'ch gobaith o gael swydd.**

Mae gennym nifer o agoriadau i Ysgrifenyddesau PG/Ysgrifenyddesau Llaw-fer ac awdio/copio a gweithredwyr switsfwrdd sy'n siarad Cymraeg ar gyfer llawer o'n cwsmeriaid mwyaf.

I gael gwybod rhagor am yr agoriadau hyn, byddwch cystal â galw neu ffonio ymlaen llaw i drefnu.

**Manpower ccc**

**90 Heol y Frenhines, Caerdydd CF1 4ER**
**(0222) 394721**
**Dros Dro a Pharhaol**
**Manpower yw'r gwahaniaeth**

# Y NADOLIG YN NEUADD DEWI SANT

**Erbyn hyn mae Neuadd Dewi Sant wedi hen ennill ei phlwy fel calon bywyd cerddorol Caerdydd a'r cyffiniau. Un o'r cyfnodau pan fydd y Neuadd yn noddi tipyn ar adnoddau lleol yw'r Adfent a'r Nadolig.**

Un o weithiau Bach na chlywir yn aml yn yr ardal hon yw ei Oratorio Nadolig a da o beth oedd cael perfformiad ohoni gan Gôr Poliffonig Caerdydd. Cyfres o chwech o gantawdau yw'r gwaith i'w perfformio fesul un dros y Suliau o Sul y Nadolig ymlaen. Heddiw, yn amlach na dim, fe genir y chwech ar y cyd mewn cyngerdd.

Pedwar a thamaid a ganwyd gan y Poliffonig dan arweiniad bywiog cyfarwyddwr y côr Richard Elfyn Jones. Fel y disgwyliem fe gafwyd datganiad teilwng a graenus gan y Côr a hynny yn yr iaith wreiddiol Almaeneg.

Ceisiodd yr arweinydd roi i ni ddatganiad ffyddlon i gyfnod y cyfansoddi a llwyddodd, i raddau helaeth iawn, gyda'r Côr. Mae'r cantorion wedi magu hyder yn y math hwn o ganu dros gyfnod hir. Nid felly'r gerddorfa a ddaeth ynghyd at yr achlusur.

Gyda thwf eithriadol y mudiad 'perfformio dilys' daeth arbenigedd newydd i berfformiadau o weithiau Bach a Handel. Tyfodd grwpiau arbenigol o offerynwyr ond ni cheir yma, yn ein cylch ni. arbenigedd felly. Fe'i ceir yn lleisiol ond nid yn offerynnol – eto.

Clywyd y Poliffonig eilwaith yn Neuadd Dewi Sant ar nos Sadwrn cyn y Nadolig mewn perfformiad ychwanegol o'r Meseia. Roedd y datganiad hwn yn bur wahanol i'r un a gafwyd y noson gynt o'r un gwaith gan Gorws a Cherddorfa Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Meseia operatig a gafwyd, yn arbennig felly gan y Corws. Er grymused eu canu cyhyrog fe deimlais i ein bod yn cael perfformiad chwyddedig. Mater o chwaeth yw hyn ac mi fydda i'n cael mwy mewn datganiadau cynnil. Ond rhaid dweud bod cynulleidfa fawr y noson honno wedi'i bodloni.

Seren y noson oedd Bryn Terfel. O'r holl unawdwyr a glywyd fe safai ar ei ben ei hun yn ei bresenoldeb, yn ei berfformiad ac yn ei argyhoeddiad. I ganwr yn ei ugeiniau cynnar mae'n dipyn o ryfeddod.

Cafwyd dwy noson dymhorol yn y Neuadd gan BBC Cymru. Yn y gyntaf roedd Dennis O'Neill yn cyflwyno ac yn canu. Cyngerdd cymysglyd oedd yma a'r ail hanner yn cael ei recordio i'w deledu nos drannoeth. Tri chôr sy'n hen gyfarwydd â chanu yn Gymraeg ond ni chafwyd dim. Yr unig Gymraeg a gafwyd oedd yn yr hanner na theledwyd sef 'Deffrown Deffrown' yn ddigyfeiliant gan y cyflwynydd.

Roedd sawl trefniant rhagorol i gerddorfa a chôr ac yn arbennig yr un gan Richard Elfyn Jones; roedd perfformiad Donald Maxwell a ddaeth, funud olaf, yn lle Dmitri 'Canwr y Byd' yn feistrolgar ond fe gollwyd cyfle i roi i gyngerdd yng Nghaerdydd, i Gymru, gan Gymry ychydig fwy o naws Cymreigaidd.

Cafwyd hyn yn y Cyngerdd Carolau fore Sadwrn a deledwyd yn fyw. Roedd Corws BBC Cymru ar ei orau, Huw Tregelles yn ei ogoniant wrth yr organ, y trwmpedi a'r drymiau'n gyfoethog a'r cyfan yn mynd at ei gilydd yn gampus dan arweiniad John Hugh Thomas.

Roedd priodas hyfryd rhwng y ddwy iaith ar gân ac ar lafar ac o blith y darllenwyr roedd yr hyn a gafwyd gan Alun Williams yn serennu. Darlleniad cofiadwy mewn rhaglen gofiadwy.

**ENILLWYR CYMDEITHAS CEFNOGWYR CANOLFAN YR URDD**

**TACHWEDD**

1: Miss N W Williams, 2 Bryn Rhosyn, Radur, Caerdydd.
2: Mrs E Patchell, 35 St Johns Crescent, Yr Eglwys Newydd.
3: B Whettleton, 3 Holly Grove, Llysfaen, Caerdydd.


Y cysylltiad personol mewn bancio

Dewch i weld y Banc Sy'n Gwneud. Fe welwch ein bod yn gofalu am eich holl gyfrifon cwsmeriaid personol, bach a mawr, gyda'r un arbenigedd.

Felly cofiwch, os ydych chi am gael pobol effeithiol i weithio ar eich cyfrif, galwch yn

NatWest Y Banc Sy'n Gwneud

GWTHIWCH I GAEL GWASANAETH

Gwybodaeth ysgrifenedig am gredyd ar gael mewn unrhyw gangen NatWest neu o 41 Lothbury EC2P 2BP. Aelod o IMRO



CEFFYL PREN

ENNILL·DROS·GYMRU

CÂN SWYDDOGOL TÎM CYMRU

AR GYFER GEMAU'R GYMANWLAD 1990

GYDA

C·A·N·T·O·R·I·O·N-Y-R·H·Y·D

£2.99

TAFLEN (CAERDYDD) W.H. SMITH (CAERDYDD)
GILES SPORTS (CANOLFAN CENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU)

CWMNI HYSBYSEBU'R DDRAIG

HYSBYSEBU · MARCHNATA · CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS
PO BOX 1111, CAERDYDD CF4 5WB CYMRU
FFÔN: (0222) 747040 · FFACS (0222) 464743

# G•W•E•N•F•Ô
## *Ddoe a Heddiw*

Pentref mewn pantle ar ochr y ffordd sy'n arwain o Groes Cwrlwys i'r Barri yw Gwenfô ac mae'n hen le. Y ffurf gyntaf ar yr enw y daeth yr Athro Gwynedd Pierce ar ei draws oedd 'Wnfa', a chofnodwyd yr ffurf honno rywbryd yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif. Digwydd y ffurf 'Wenvo' tua 1262 ond yn yr unfed ganrif ar bymtheg yr gwelwn y ffurf Gwenfo yn ymddangos am y tro cyntaf. Ond er bod ffurfiau rif y gwlith ar yr enw wedi'n cofnodi ar hyd y canrifoedd, tywyll iawn yw ei darddiad a'i ystyr, er i'r diweddar Athro Griffith John Williams ddweud mai 'Gwaun-fo' oedd ynganiad y brodorion o'r enw, a dyfynnodd driban i brofi'r pwynt:

Mi welais fyd ar frigyn,
  A'r Deis a Wil Hopkin;
Yfed gwin ym Mhlas Gwaenfo,
  Mewn cnepyn o garnogcyn.

(Corn y fed bychau yw'r cnepyn o garnogcyn).



### BEIRDD Y SIR

Efallai fod y pennill bach hwn yn dweud wrthyn fod beirdd y sir yn arfer galw ym Mhlas neu gastell Gwenfô yn ystod y gwyliau yn y ddeunawfed ganrif. Teulu'r Tomasiaid a drigai yno yn y cyfnod hwn ac yr oedden nhw'n bur boblogaidd ymhlith y beirdd a gwyddom fod hen fardd o'r enw Edward Evan wedi cyfansoddi cân lecsiwn pan etholwyd Syr Edmund Thomas yn "farchag y sir" yn 1761. Safai'r Castell neu'r Plas hwn lle mae Clwb Golff Gwenfô yn awr ond fe ddifrodwyd yr adeilad gwreiddiol gan dân yn 1910 pan losgwyd rhan helaeth ohono, gan gynnwys llyfrgell, yn nlw. Mae hanes diddorol i achau'r teulu hwn a bu o leiaf bump ohonyn nhw'n farwniaid ac un o'r rheini'n aelod seneddol dros Sir Forgannwg a bu dau arall ohonyn nhw'n dal swyddi yn llys y brenin yn Llundain. Ond bu yma gastell arall hefyd – castell hŷn na chastell y Tomasiaid a safai hwn ar godiad tir ar gwr gogleddol y pentref. Yr oedd ychydig o olion hwn i'w gweld tan yn gymhorol ddiweddar ond fe gladdwyd yr olion hynny erbyn hyn o dan rwbel y chwarel a fu yma. Arferid dweud i'r castell hwn gael ei ddinistrio gan fyddin Owain Glyndŵr ond cedwir cof amdano'n awr yn enw'r tŷ tafarn newydd sydd yma – The Walston Castle.

### DE SULLY

Perchnogion Normanaidd y lle yma yn yr Oesoedd Canol oedd y teulu de Sully, teulu a ddaeth i'r fro, mae'n debyg, o Ddyfnaint. Yna daeth Norman arall o'r enw William le Fleming yn berchennog ar y tiroedd a thrwy briodas ei ferch, aeth y lle'n eiddo i deulu'r Malefant ac yma pan fu farw'r olaf o'r teulu hwnnw credir i'r stad fynd yn eiddo i'r Brenin cyn dod i ddwylo'r Tomasiaid. Gwerthwyd y cyfan wedyn i ŵr o'r enw Peter Birt a thrwy briodas daeth yn eiddo i'r teulu. Jenner ond Sgweier olaf y pentref oedd Godfrey Lewis – cymeriad a hanner!

Mae eglwys y plwyf, Eglwys y Santes Fair, yn hen eglwys ac mae ei henw'n dangos y dylanwadau Normanaidd a fu yma, oherwydd y Normaniaid a ddaeth â chwlt y Forwyn Fair i'n gwlad. Fe fu John Wesley yn pregethu droeon yn yr eglwys yma pan ddeuai ar ei dro i gastell Ffwl-y-mwn, ryw filltir o borthladd Aberddawan. Yr oedd rheithor y pryd hwnnw, gŵr o'r enw John Hodges, yn cadw seiat Fethodistaidd yn yr eglwys. Ar y Sul, y deunawfed Hydref 1741 yr ymwelodd Wesley gyntaf â Gwenfô ac yn ôl ei ddyddiadur yr oedd yr eglwys yn llawn o wrandawyr astud. Rhwng 1741 a 1763 ymwelodd droeon â Gwenfô ond mae tristwch yn ei gofnod dyddiadur am ei ymweliad olaf â'r pentref – cafodd oedfa galed ac yr oedd y rheithor Hodges fel pe bai wedi colli'r frwdfrydedd gwreiddiol ac ni chanwyd o gwbl yn y gwasanaeth ac meddai: "Oh, what life was here once! But now there is not one spark left".




*"Diolch i Gyngor Cwm a Bro ac i Mr George Storey am ganiatâd i ddefnyddio'r lluniau."*

*Parhad trosodd*

Parhad Gwenfô

### BYWYD Y WERIN

Ond os nad oedd llawer o sparc yn yr eglwys erbyn 1763 mae gennym dystiolaeth bendant fod bywyd gwerin llawen iawn yn y pentref yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, oherwydd fe ganodd bardd o Lancarfan, William Robert o'r Ydwal, gerdd yn gwahodd yr ieuenctid i ddyfod i Wenfô ar Ŵyl Ifan i ddawnsio o gwmpas y fedwen haf ac mae'n sôn am y paratoadau ac am y modd y gwisgid y fedwen. Sonia'r gerdd yn ogystal am wŷr plwyfi cyfagos yn ceisio dwyn y fedwen.

Mae'r gerdd hon hefyd yn rhoi syniad inni am dafodiaith gwaelod y fro yn y ddeunawfed ganrif:

Clywch, dewch o'ch bron gwych
ientyd bra
Gâr drawad tanna tynnon,
Oll hyd Gwenfô y man lle ma
Gwŷr ryfydd a gwyryfon,
Teca'u dygiad mewn gwir gariad
Nos Sadyrna hawdd yw dirnad
'Rhain yn hwara oddeutu'r droedla
Mewn dwys sidan mwyn drwsiadu
"Oll hyd Gwenfô rhowch dro nyd tra
Cewch manol geinghca mwynon . . ."

Ma yno Hafan bur o bren
A'i phen tua'r nen yn union
O dyfiad rhwydd a'r hwn yn rhad
Rhodd un o'r Duriad dewrion . . .
Os bydd rhai'n ceisio byth ei speilo
Ma gwŷr enwog gwrol yno
A bechgyn hoew ar bob galw
Abal cedyrn ag y'i ceidw.

A dyna brawf fod rhai o daplasau enwog Bro Morgannwg wedi'u cynnal yma yng Ngwenfô.

### CAPEL SOAR

Er i John Wesley ymweld â'r pentref ni ffurfiwyd eglwys Wesleaidd yma ond yn 1834 agorwyd Capel Soar gan y Methodistiaid Calfinaidd, ac uwchben y pentref ar Dwyn-yr-Odyn yn 1843 agorwyd capel gan y Bedyddwyr – dau gapel Cymraeg wrth gwrs a bu'r ddau achos yn ffyniannus a gweithgar am flynyddoedd. Ond cilio'n araf a wnâi'r Gymraeg yma a throwyd y capeli'n rhai Saesneg eu hiaith ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon. Dros y blynyddoedd hefyd gwanychu wnaeth y ddau achos ac o'r diwedd fe gaeodd y ddau.

Tan y Rhyfel Byd diwethaf, pentref bychan gwledig oedd Gwenfô, a pharhaodd felly am ychydig wedi hynny. Nid tan y chwedegau y dechreuwyd codi stadau tai newydd yma ac fel canlyniad cynyddodd poblogaeth y pentref ac ymhlith y newydd-ddyfodiaid yr oedd nifer o Gymry Cymraeg, ac felly wedi bwlch o flynyddoedd fe glywid eto Gymraeg ar y heolydd. Gan fod nifer o blant bach Cymraeg eu hiaith yma ac yn y cyffiniau penderfynwyd ail-agor capel Soar fel achos cyd-enwadol Cymraeg a chynnal Ysgol Sul i'r plant bob bore Sul a gwasanaeth unwaith y mis ar brynhawn Sul cyntaf y mis. Nos Fawrth y pedwerydd ar hugain o Hydref 1972 cynhaliwyd y gwasanaeth agoriadol a'r Parchedig Lodwig Jones, Capel Heol-y-Crwys yn pregethu. Trwy gydol y saithdegau bu'r ysgol Sul yn llewyrchus iawn ac ar un adeg yr oedd rhyw dri dwsin a rhagor o blant yn dod atom ac fel pob achos gwerth ei halen, fe geid trip ysgol Sul bob haf. A thripiau i'w cofio oedd y rheini! Ond y drwg gyda phlant yw eu bod yn tyfu ac yn mynd i ysgolion uwchradd ac i golegau, ac fel yna'n union y lleihaodd mynychwyr yr Ysgol Sul ac nid oedd neb i gymryd eu lle. Fe ddaeth yr Ysgol Sul i ben ar ddechrau'r wythdegau ond parhaodd y gwasanaeth ar Sul cynta'r mis tan ddiwedd 1988 pan fu'n rhaid rhoi'r gorau iddo oherwydd diffyg cefnogaeth – dim ond llond dwrn o ffyddloniaid oeddym ar y diwedd a phob un o'r rheini'n aelodau mewn eglwysi eraill. Ond mae Soar yn dal ar agor a cheir gwasanaeth Saesneg yno ar y trydydd Sul ymhob mis. Hwyrach y daw tro ar fyd eto. Pwy a ŵyr? O, ie, mae ambell bennill, englyn a chywydd yn dal i gael eu cyfansoddi yma.

**ISLWYN JONES**

# HEL MEDDYLIAU

**Os cawsoch chi'r ffliw fis Rhagfyr diwethaf ("yr hen lymbar"), fe fyddwch yn barod i honni fel fi mai gwas y Diafol yn sicr oedd wrth ei waith. Ellis Wynne o Lasynys yng Ngweledigaeth Uffern restrodd y prif gythreuliaid fel Lusiffer, Belsebub, Satan, Moloc, Abadon, Asmodai, Dagon, Apolyon, Belphegor, a Mephistophiles ac ychwanegaf finnau 'Y Ffliw' atynt yn sicr. Dim ond y sawl a ddioddefodd a ŵyr yr uffern yr arweiniodd y Gwalch bawb iddi a bellach mae yntau ymhlith y cythreuliaid gen i. Ac un o'i brif arfau oedd taro dyn â'r felan, pwll diwaelod os bu un erioed.**

Pan oedd y ffurfafen ddu yn dechrau clirio, ceisiais alw i gof ambell un a lwyddodd i herio trics y Diafol â gwên. Dyna un ffordd ymhlith eraill i gael y trechaf ar y Gwalch mae'n siŵr. Bendith ar bob un sy'n mynnu goleuo'r ffurfafen â gwên a rhwystro'r Diafol rhag cael y gair olaf.

### PORTHMADOG

Pan oeddwn yn weinidog ym Mhorthmadog yn y chwedegau, clywn lawer am un o'm rhagflaenwyr yn Salem, yr eglwys Annibynnol, eglwys y bu'r bardd Emrys yn weinidog arni, ac a fedyddiodd Eifion Wyn gyda llaw. Un arall o'r enwogion – ac o'r enwogion llawen – oedd y Parch W J Nicholson. Fe'i cyfrifid yn un o sêr y pulpud yn ei ddydd. Ond yn ei flynyddoedd olaf y daeth ei wir arwriaeth i'r golwg ar ôl iddo gael strôc a'i daro â dallineb. Ychydig o ddyddiau ar ôl yr aflwydd cyntaf galwodd cyd-weinidog i gydymdeimlo ag ef a holi ei hynt. Un o'r pethau cyntaf ddywedodd W J Nicholson wrtho oedd: "*Gwneud* strôc ydi'r peth gorau, nid cael strôc." Cariodd groes dallineb yn ddewr hefyd a meddai'n ysgafnfryd wrth gyfaill: "Rwy'n debyg iawn i'r Hollalluog erbyn hyn, yr un peth ydi goleuni a thywyllwch i minnau bellach." Er mwyn ei helpu adeg cinio fe fyddai'n dweud wrth ei wraig am roi yr halen ar y plât 'lle mae'n chwarter i ddeuddeg'. Ysgafnhâi bob awyrgylch trymaidd â'i ffraethineb iach.

Un o'i ffrindiau agosaf oedd y brawd Tom Parry, arwerthwr adnabyddus iawn yn y dre a'r cylch ac a fu farw tua dwy flynedd yn ôl yn 101 oed. Ar ôl i Nicholson golli ei olwg arferai Tom Parry fynd i ddarllen iddo a sylw'r gweinidog ar ddiwedd yn prynhawn oedd: "Wel, Mr Parry, ma' gen i enw newydd arnoch chi rwan – *'page boy'*."

Wrth yr un Tom Parry y dywedodd WJN – er i'r geiriau gael eu tadogi i eraill – "Fe wyddoch chi, Mr Parry, fod 'na emyn ar gyfer pob galwedigaeth yn Y Caniedydd, a'ch un chi ydi 'Mae arnaf eisiau sêl' . . ."

### SÊLRWM

Bu'r gweinidog yn gwarando ar yr arwerthwr yn mynd trwy'i bethau un prynhawn yn y sêl. Cyrchfan boblogaidd iawn yn nhre Porthmadog oedd sêlrwm Tom Parry, nid yn unig i gael bargen ond i glywed yr arwerthwr yn ei hwyliau yn gwerthu. Roedd yn berfformans ynddo'i hun. Y noson honno bu'n gweld ei weinidog ac un o'r pethau cyntaf a ddywedodd ef wrtho oedd: "Mr Parry, dwy' wedi bod yn meddwl am garreg-fedd i chi ar ôl bod yn gwrando arnoch chi heddiw." Wedi dod dros sioc y sylw annisgwyl, meddai Mr Parry: "O – sut garreg fydd hi?" "O – dim un fawr. Dim un fawr o gwbwl. Yn wir fydd dim eisiau ond un gair arni." "Pa air fydd hwnnw 'te?" "O – *'Gone'*!" oedd yr ateb.

Erbyn hyn mae'r ddau ysywaeth "wedi mynd" ond erys atgofion hyfryd amdanynt ac nid lleiaf y storïau a'r dywediadau a rwystrodd i'r nos gael y trechaf ar y dydd ac i'r Diafol gael y gorau ar felyster ysbryd dyn.

**HUW ETHALL**

# SÊR Y DINESYDD

**Eiry Palfrey**

## CHWEFROR 1990



### ARIES

Mae yna elfen o dwyll o'ch cwmpas y mis hwn yn enwedig yn yr adran ariannol o'ch siart. Gofalwch felly i beidio â gamblo'n wyllt, a chadwch lygad barcud ar eich pwrs. Mae'n bosib y byddwch yn talu ymweliad ag ysbyty y mis hwn, ond does dim i'w boeni yn ei gylch. Bydd eich perthynas â brawd neu chwaer yn dyfnhau o hyn ymlaen.



### TAURUS

Gall hwn fod yn fis dryslyd braidd ond y newyddion da yw – o ganol y mis, am gyfnod eitha hir fe ddylai eich cyflwr ariannol wella'n sylweddol. Mae'n bosib y byddwch yn ymgymryd â gwaith cymdeithasol, neu'n cymryd yr awenau mewn cymdeithas leol. Gellwch ddibynnu ar eich cyfeillion i'ch helpu mewn argyfwng.



### GEMINI

Fe ddylai hwn fod yn fis ardderchog i hybu'ch gyrfa. Fe allech glywed newyddion cyffrous iawn ynglŷn â'ch swydd. Dyma'r amser i gynllunio'ch gwaith ar gyfer a flwyddyn sydd i ddod yn ofalus iawn. Os bu gennych broblem gyda'ch iechyd, fe ddylai'r drafferth fynd erbyn diwedd y mis a bydd gwellad buan yn dilyn.



### CANCER

Os am drefnu taith dramor gwnewch hynny yn ddiymdroi. Mi ddylech gael gwyliau hapus a phleserus fydd yn gwneud byd o les i chi ar ôl y gaeaf. Mae'n bosib y bydd camddealltwriaeth bach yn codi rhyngoch chi a'ch cymar. Pediwch â bod yn styfnig neu fwrw'r bai. Mi fydd hi'n haws o lawer i chi gymodi heb wneud hynny.



### LEO

Daeth y gwanwyn a chyfle i sbring clinio. Mae'n siŵr y byddwch wrth eich bodd yn paentio a phapuro a gwario arian a gwneud eich bwthyn yn balas bach. Does dim fydd yn eich plesio'n fwy na chael cyfle i wario. Efallai daw cyfle y mis hwn i weithio gyda phobl sydd o gefndir gwahanol iawn i chi.



### VIRGO


Dyma'r mis i ganolbwyntio ar bartneriaeth o bob math, eich priodas, eich carwriaeth neu bartneriaeth busnes. Mae'n fis da iawn i ddatrys unrhyw broblemau sy wedi codi rhyngoch yn ddiweddar, ac i ddechrau o'r newydd os bydd raid. Fe allai hwn fod yn gyfnod llwyddiannus iawn ond i chi ffrwyno'ch tafod.





### LIBRA

Fe allech wneud yn dda iawn yn ariannol y mis hwn. Mae'n bosib hyd yn oed y byddwch yn etifeddu rhywfaint o arian neu eiddo. Rydych wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn ddiweddar a mae'n hen bryd i chi gymryd hoe fach rhag ofn i chi orwneud pethau a rhoi straen ar eich nerfau a'ch iechyd.



### SCORPIO

Mi fyddwch wrth eich bodd y mis hwn yn datrys problemau – eich hun a rhai pobl eraill. Cewch ganmoliaeth a diolch am helpu rhywun i ddatrys problem reit ddyrys fu'n eu poeni ers tro. Gwyliwch eich tafod yn y cartref, rydych yn fwy pigog nag arfer, a mae'ch cymar yn fwy sensitif nag y dylai fod – sefyllfa beryglus os na wyliwch chi!




### SAGITTARIUS

Fe ddylai hwn fod yn fis da i arwyddo cytundebau cyfreithiol. Mae'ch teulu yn mynd i fod o bwysigrwydd mawr i chi am gyfnod felly peidiwch â'u hesgeuluso. Efallai bydd rhai aelodau yn peri rhywfaint o bryder i chi, ond y peth gorau o dan yr amgylchiadau seryddol presennol yw gwneud dim ac ymarfer amynedd.



### CAPRICORN

Fe ddylai'ch iechyd wella cryn dipyn y mis hwn. Os bu hen broblemau bach meddygol yn eich poeni'n ddiweddar fe ddylent ddiflannu i gyd efo'n hir. Mae hwn yn gyfnod da i chi ysgrifennu yn greadigol, ac hefyd os oes angen llythyru arnoch at rywun pwysig a dylanwadol, fe ddylai'r llythyr fod yn llwyddiannus nawr.



### AQUARIUS

Mae'n eitha tebyg y clywch newyddion am enedigaeth y mis hwn ddaw a chryn hapusrwydd i chi. Mi fyddai'n gwneud synnwyr i chi gynllunio'ch cyllid ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn ofalus iawn y mis hwn. Mae'n bosib y byddwch yn llwyddiannus iawn yn ariannol ond i chi roi trefn ar y sefyllfa.



### PISCES

Rydych ar fin dechrau pennod newydd lewyrchus a chyffrous yn eich bywyd. Mi fydd pob math o bethau'n digwydd y mis hwn fydd yn pwyntio tuag at hynny. Digwyddiadau annisgwyl fydd yn eich synnu, yn y gwaith ond yn fwy na hynny yn eich bywyd personol. Mae hwn yn fis ffafriol iawn i feddwl am werthu neu symud tŷ.

### CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad at Richard Williams, Thornbury Close, Rhiwbeina. Bu farw ei dad yn Rhoslan ar y pumed o Ionawr. Wrth gofio am Richard a'i wraig Pauline cofiwn hefyd am y ddau fychan, David a Rachel.

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Fe alwodd y Fari Lwyd heibio i ymuno â'r hwyl ym mharti Calan Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys. Howard Evans oedd arweinydd y noson ac fe lywiodd yr holl weithgareddau mewn ffordd ddymunol dros ben, tra'n sicrhau fod hen ac ifanc yn ymuno yn y gemau niferus. Moyra Owen a Gill Lewis oedd yn gyfrifol am y lluniaeth rhagorol a Linda Jones, Ellis Griffiths, Rowland Owen ac Owena Hopwood a gynorthwyodd gyda'r posau a'r croeso i'r Fari Lwyd. Diolch i'n Cadeirydd Rhodri Jones a'n hysgrifenyddes Moyra Owen am drefnu noson arbennig i groesawu'r flwyddyn newydd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mari Hill – un o sylfaenwyr ein Cymdeithas Gymraeg. Fe gollodd Mari ei gŵr Wilf yn frawychus o sydyn ar noswyl y Nadolig. Daeth tyrfa gref ynghyd i'r angladd yn eglwys Llandochau er coffadwriaeth am Wilf ac i fynegi cydymdeimlad â Mari o'r pedwar mab John, Gethin, Robert ac Emlyn.

### GWELLHAD

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Marilyn Kane ar ol damwain ddifrifol cyn y Nadolig. Ein cofion gorau ati hi ac at Ken a Haf.

### CYDYMDEIMLWN

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Eirlys, Robin, Iona a Lisa ar ey profedigaeth sydyn dros yr Ŵyl o golli mam Eirlys. Er bod Nain wedi bod yn dihoeni ers tro nid llai y golled pan ddaw. Y mae ein meddyliau efo chi a'r teulu yng Nghlwyd, trist bob amser yw cloi pennod mewn teulu.

# NEWYDDION O YSGOL GLANTAF

**LLONGYFARCHIADAU I**

- Huw Curig Thomas ar ennill lle yng Ngholeg yr Iesu Rhydychen.
- Esther Whitfield ar ennill lle yng Ngholeg St Margaret's Hall, Rhydychen.
- Huw Harries a chwaraeodd i dim rygbi buddugol Ysgolion Cymru dan 18 yn erbyn yr Alban.
- Anne John sydd wedi ei dewis i dîm Hoci Merched Cymru.
- Sian Williams sydd yng ngharfan tenis Cymru dan 20.
- Mali Harries ar ennill cystadleuaeth HTV i ysgrifenwyr ifainc.
- Deg o ferched yr Ysgol yng Nghwmni Dawns De Morgannwg.
- Guto Thomas blaenwr newydd Cerddorfa De Morgannwg.
- Dau dîm Dosbarth 6 a enillodd y gystadleuaeth gêm fusnes – Partneriaeth Datblygu Economi Cymru dan nawdd cwmni CATNIC.

**STAFF**

Llongyfarchiadau i Gaynor Egerton sydd wedi priodi Rhodri Samuel, athro yng Nghanada (gynt o Gwmgors). Erbyn hyn mae Gaynor a'i phriod wedi ymsefydlu yn British Columbia. Llongyfarchiadau a dymuniadau da hefyd i Ann Saer ar ei dyrchafiad i swydd Dirprwy yn Ysgol Llanharri.

**RYGBI**

Yn sicr dyma un o'r tymhorau mwyaf llwyddiannus i dîm cyntaf yn Ysgol. Drwy ennill pob gêm yn y rowndiau rhanbarthol mae Glantaf wedi cyrraedd yr 16 olaf yng nghystadleuaeth cwpan newydd i Ysgolion Cymru. Mawr yw'r disgwyl am y rownd nesaf ar y 27ain o Ionawr wrth i dîm yr ysgol groesawu naill ei enillwyr Dyfed neu enillwyr Gwynedd. Felly beth am eich cefnogaeth ar faes yr ysgol yn y bore cyn y gêm fawr yn y prynhawn ar Barc yr Arfau?

Da yw nodi hefyd bod 18 o chwaraewyr rygbi yr Ysgol wedi cynrychioli naill ai Sir De Morgannwg neu'r Ddinas yn y gwahanol oedrannau.

**RHAGLEN S4C "Ffeilofflics"**

Yn y detholiad o ffilmiau byrion a gynhyrchwyd gan bobl ifainc gyda chymorth Chapter, disgyblion Glantaf oedd yn gyfrifol am dair o'r pum film, sef y dociau, yr Eisteddfod a Fideo Animeiddio.

**OPERA PISHIN TAIR**

Dyma'r disgwyddiad olaf yn mlwyddyn dathlu degawd cyntaf Ysgol Glantaf ac ar lawer cyfrif gellir ystyried y perfformiad hwn cyn y Nadolig yn goron deilwng ar flwyddyn gofiadwy yn hanes yr Ysgol.

Yn seiliedig ar waith Brecht (y cyfeithiad Cymraeg gan Emyr Edwards) roedd llwyfannu'r ddrama gerdd hon yn fenter uchelgeisiol i'r adrannau Drama a Cherdd yng ngofal Neris Jones ac Alun Guy. Eto ym marn pawb a welodd y ddau berfformiad cafwyd ymateb gwych gan yr actorion a'r cerddorion ifainc, heb sôn am y llu o ddisgyblion ac athrawon yn y tîm cynorthwyol. Am ddwy noswaith ail grewyd darlun byw o strydoedd cefn Llundain yn Oes Fictoria drwy gyfrwng setiau tra effeithiol a gwisgoedd lliwgar. Er nad opera mohoni, gwelwyd yr elfennau hynny sydd yn nodweddu opera – stori ddiddorol ar sawl lefel, perfformiadau cryf ac oeddfed gan actorion, unawdwyr a cherddorfa a'r gerddoriaeth yn hynod o gyffrous a chyfoes.

Yn sicr dyma berfformiadau a oedd gwerth llawer mwy na phishyn tair!

**CYNGERDD NADOLIG YR YSGOL ISAF**

Yn wythnos olaf y tymor cyfwyd cyngerdd hyfryd iawn ei naws i ddathlu'r Nadolig gan ddisgyblion blwyddyn un a dau. Â'r neuadd yn orlawn plesiwyd y gynulleidfa gan yr amrywiol eitemau cerdd yn lleisiol ac offerynnol dan arweiniad Delyth Medi a'r cyflwyniadau llafar yn ategu'r naws Nadoligaidd.



*Golygfa o Opèra Pishin Tair Ysgol Glantaf – yr unawdydd Sian Elin Jones yn chwarae rhan Mrs Peachum.*



*Mr Colin Burbage, Cadeirydd y Swyddfa Bost yng Nghymru yn cyflwynocopi o'r Atlas Mawr Cymraeg i Ysgol Glantaf.*

**LLONGYFARCH**

Llongyfarchiadau i David a Heulwen Thomas ar ddod yn Daid a Nain – ganwyd mab i'r Doctor Deri Thomas a'i briod Megan. Croeso i Cynon Gwilym, rydym yn cydlawenhau â chi.

**LLONGYFARCH**

Llongyfarchiadau i Petra Bennet ar ei dyweddiad â Guto Llywelyn. Petra yn ferch i Malcolm a Mair Bennet a Guto yn fab i Emyr a'r diweddar Bethan Llywelyn Davies. Ein dymuniadau da i'r ddau deulu.

# EGLWYS EBENESER CAERDYDD

## *Annibynwyr*

**Oddi ar pan anfonais hanes ein heglwys ni i'r Dinesydd fe aeth traean y flwyddyn 1989 heibio a daeth i'w diwedd. Felly, mae'n bryd i mi roi tipyn o'n hanes ni yn ystod y misoedd hynny. Buom yn gynulleidfaoedd niferus gan amlaf, yn cwrdd bob bore a hwyr ar y Sul i addoli ac i wrando ar bregethau grymus ein Gweinidog, fynychaf. Y mae ein Hysgolion Sul yn llewyrchus iawn ac ar gynnydd, y naill yn Ebeneser wedi oedfa'r bore a'r llall yng Nghanolfan Chwaraeon Llanrymni yn y prynhawn.**

Bob nos Lun cynhelir Cwrdd Gweddi sy'n Gwrdd Paratoad cyn Sul y Cymun ac yn Gwrdd Cenhadol ar ddechrau pob mis. Cynhelir Dosbarth Beiblaidd wedi'r Cwrdd Gweddi yn nhŷ un o'r aelodau a ddaw i'r dosbarth.

### CHWIORYDD

Prynhawn bob Dydd Iau cynhelir cyfarfodydd Chwiorydd yr Eglwys. Cawn siaradwyr o blith aelodau'r eglwys ac o'r tu allan iddi ar bynciau amrywiol iawn a daw'r Gweinidog atom bob prynhawn cynta'r mis i esbonio darnau o'r Beibl.

Bob nos Fercher daw nifer o'n gwragedd ifainc ynghyd i wneud pastai ar gyfer y digartref a'r crwydriaid sy'n tramwy strydoedd y ddinas. Yna, yr un noson daw rhai o ddynion yr eglwys i'w dosbarthu lle mae'r trueiniaid yn aros yn awchus amdanynt. Gwnaed pastai briwfwyd iddynt hefyd dros y Nadolig. Cofia Cymdeithas y Chwiorydd hefyd am anfon cyfraniadau i elusennau lleol ac am Ward Helyg ysbyty Trelái.

Unwaith y mis cynhaliwn gyfarfodydd Cymdeithas yr Eglwys. Cynhaliwyd Helfa Drysor eleni yn ymestyn i'r Bontfaen a Llanilltud Fawr ac i un o'r traethau cyfagos. Ymhen mis cynhaliwyd cyfarfod agoriadol swyddogol y Gymdeithas gyda swper bys a bawd a baratowyd gan y 'Bois'. Cafwyd hwyl yn darganfod enwau tonau a lleoedd o'r posau a roddwyd i ni. Daeth Eirlys Parri i ganu yn ei llais persain.

Cynhaliwyd noson goffi i godi arian i Gymdeithas y Beibl ar Hydref 10, gyda stondinau dan ofal nifer o eglwysi. Cynhaliwyd gwasanaeth yn y capel a chafwyd anerchiad gan y Parchg Geoffrey Fawkes, prif gynorthwy-ydd Cymru dros y Gymdeithas. Ymysg pethau eraill a ddywedodd wrthym rhoes y wybodaeth galonogol i ni fod trigolion gwledydd y byd yn dyheu am gael Gair Duw yn eu meddiant yn eu hieithoedd eu hunain. Tybed a ŷm ni, Gymry, yn ddigon diolchgar am ein Beibl Cymraeg ni?

Cynhaliwyd gennym yn ein festri fore coffi i gasglu arian tuag at Gymorth Cristnogol a oedd i gael ei gynnal yn festri'r Tabernacl. Ond eleni daethom ni i'r adwy gan fod gweithwyr yno. Yr oedd yn fore llwyddiannus iawn a chasglwyd rhai cannoedd o bunnau a gyfrannwyd gan dorf a ddaeth i gefnogi'r elusen arbennig hon.

### LLWYDDIANT

Cofnodwn gyda balchder lwyddiant ein Gweinidog yn cael gradd Doethur mewn Athroniaeth (DPhil) Prifysgol Rhydychen. Pwnc ei ymchwil ydoedd 'Astudiaeth o Fywyd a Gwaith Howell Harris a'i Gyfraniad i'r Diwygiad yng Nghymru rhwng 1735 a 1750'.

Llond gwlad o longyfarchiadau a roir
i'r un, gyda'i ffeithiau
cywir oll, a fu'n sicrhau
Howell Harris rhwng cloriau.

Fel y gŵyr darllenwyr y Dinesydd fe ffarweliwyd ag Arfon ac fe gollwyd ein Hysgrifennydd. Bellach y mae Gareth Wyn Jones wedi cymryd ei le. Y mae yntau wedi ychwanegu gradd MSc at ei gymwysterau eraill a llongyfarchwn ef hefyd.

### COLLED

Cawsom golled fawr ym marwolaeth yr hynaws Aneirin Lewis, ein His-ysgrifennydd ar Dachwedd 25 ac yntau yn 65 oed.Daeth cynulleidfa hefyd ynghyd yn yr Amlosgfa ar gyfer gwasanaeth y Traddodiant. Coffa da amdano a'n cydymdeimlad dwysaf â'i weddw, Mary, a'i blant Gwenda a Geraint.

Derbyniwyd gyda llawenydd a chroeso cynnes iawn, yn gyflawn aelodau, bedwar bachgen ifanc o blith ieuenctid yr eglwys ynghyd ag aelodau newydd, nos Sul, Rhagfyr 3.

Gweinidog cyntaf ein heglwys ydoedd Lewis Powell, genedigol o bentref amaethyddol Defynnog, Sir Frycheiniog. Pan fu raid symud allan o'r hen Ebeneser fe godwyd cyrff y meirw o'r fynwent a'u trosglwyddo i fynwent Cathays. Nid oedd dim yno i nodi'r fan lle gorweddai gweddillion Lewis Powell. Felly, ar fore Sadwrn glawog a diflas, Medi 16, daeth nifer ohonom at ein gilydd yn y fynwent i ddadorchuddio carreg goffa ar ei orweddfan ac i gynnal gwasanaeth bychan.

**MAIR ELVET THOMAS**
**Golygydd y *Llusern* misolyn y Eglwys**

# Can Swyddogol Tîm Cymru

**Am y tro cyntaf erioed y mae tîm Cymru yn mynd i Gemau'r Gymanwlad, yn Auckland rhwng Ionawr 24ain – Chwefror 3ydd, gyda'u cân swyddogol eu hunain.**

Ysgrifennwyd y gân *'Ennill Dros Gymru'* gan y grŵp pop Cymraeg CEFFYL PREN ac fe'i recordiwyd yn stiwdio Music Factory yng Nghaerdydd.

Mae'r record ar gael fel sengl 12" ac arni mae dwy fersiwn o'r trac 'Ennill Dros Gymru', y ddwy tua tair munud o hyd. Yr un gyntaf yw'r fersiwn 'pop' swyddogol ac y mae'r llall yn cynnwys y côr poblogaidd Cantorion y Rhyd o Orllewin Cymru. Enillodd y côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1989.

Y mae'r traciau eraill ar y record yn cynnwys trac offerynnol 6 munud 'Chwaraeon Cymysg' a thrac byr gorfoledd-us thema'r 'Medal'.

Pris y record yw £2.99 ac fe fydd yr elw i gyd yn mynd tuag at gronfa Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, i hybu'r gost o ymweld â Seland Newydd eleni.


### AR WERTH

TELYN DEIRES (10 MLWYDD OED)
MEWN CYFLWR ARDDERCHOG
CYSYLLTWCH Â JOHN JONES
31A FFORDD CAERDYDD
LLANDAF,
CAERDYDD (0222) 562318


### CYDYMDEIMLAD

Trist oedd clywed am farwolaeth yr Athro Gethin Davies yn Ysbyty'r Brifysgol ar Ragfyr 27 ain. Bu Gethin yn Athro Economeg yn Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cymru am flynyddoedd ac yn Athro Gwadd ac Ymgynghorydd Arbenigol mewn Prifysgolion ar draws y byd. Cydymdeimlwn yn ddwys â 'i weddw, Vivienne, a'u plant Karen, Nan a Stephen.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Iona Davies, athrawes yn Adran Frangeg Ysgol Glantaf ar ei phenodiad yn Bennaeth Adran y Ffrangeg yn Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul. Colled ar ei hôl ond pob dymmuniad da iddi yn ei swydd newydd wedi pasg.

# TÂL CYM

CITY OF CARDIFF
DINAS CAERDYDD

## DINAS CAERDYDD – PRIFDDINAS CYMRU – DINAS CA

## ATEB I RAI O'CH

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthoch chi sut allech chi ostwng
amrywio yn ôl eich amgylchiadau personol chi, yr un fath â'r cynl

### 1. C. PWY SY'N TALU'R TÂL CYMUNEDOL NEU DRETH Y PEN?

A. Bydd raid i'r rhan fwyaf ohonoch chi sydd dros 18 oed dalu'r Tâl Cymunedol neu Dreth y Pen. Bydd pob un ohonoch yn cael bil ar wahân. Bydd unrhyw ostyngiad am ad-daliad yn cael ei ddangos ar eich bil.

### 2. C. BETH YW BUDD-DÂL TÂL CYMUNEDOL (SYDD HEFYD YN CAEL EI ALW'N AD-DALIAD TRETH Y PEN)

A. Cynllun ad-daliad yw hwn a allai ostwng eich bil treth y pen hyd at 80%. (Dydy myfyrwyr, sy'n gorfod talu 20% yn unig, DDIM yn gymwys i gael ad-daliadau).

### 3. ALLA' I GAEL HELP AT DALU TRETH Y PEN?

A. Os ydych chi eisoes yn hawlio budd-dâl tai ac yn cael Cymorth Incwm, fe fyddwch chi'n gymwys beth bynnag i gael ad-daliad o 80% (y mwyaf a ll wch chi gael). Mae hynny'n golygu bod raid i chi dalu 20% yn unig (1/5) och bil treth y pen.

B. Os nad ydych chi'n cael Cymorth Incwm, gallwch wneud cais am ad-daliad yr un fath. Ond fe fydd faint a gewch yn dibynnu ar eich incwm a'ch cynilion. Po fwyaf yw'ch incwm, isa'n y byd fydd eich ad-daliad.

C. Os ydych chi'n briod neu'n byw gyda phartner fel pe baech chi'n briod, un cais yn unig allwch chi wneud am ad-daliad, e.e. mae un partner yn gwneud cais dros y llall. I gyfrif eich hawliad, bydd raid ystyried incwm y ddau ohonoch. Wedyn bydd eich ad-daliad yn cael ei rannu rhyngddoch a'i ddangos ar eich biliau ar wahân.

D. Os bydd raid i chi dalu cyfraniad Tâl Cymunedol ar y Cyd i'ch landlord a hefyd yn gorfod talu'r Tâl Personol ar gyfer cyfeiriad ar wahân, fe allech cael help gyda'r ddau.

Rhaid gwneud dau gais ar wahân, un ar gyfer pob cyfeiriad.

Byddwch cystal â sylwi os oes gennych fwy nag £8,000 wedi ei gynilo, mae'n debyg na fydd gennych hawl i gael ad-daliad.

OS NAD YDYCH CHI'N SIŴR A OES GENNYCH HAWL I GAEL AD-DALIAD, GOFYNNWCH BETH BYNNAG.

### 4. C. BLE DDYLWN I FYND I WNEUD CAIS?

A. Os ydych chi (neu'ch partner) yn denant Tŷ Cyngor, byddwch cystal â gwneud cais yn Marland House neu'r Swyddfa Dai Ranbarthol yn lleol.

(B) Dylai pawb arall (gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tai Cyngor ond heb fod yn denantiaid) wneud cais i'r Swyddfa Budd-daliadau yn Neuadd y Ddinas.

### 5. C. BETH SY' RAID I MI WNEUD I HAWLIO AD-DALIAD?

A. Os ydych chi'n cael budd-dâl tai nawr, fe fyddwch yn cael ad-daliad beth bynnag. Hynny yw, does dim raid i chi wneud dim.

Os ydych chi'n cael cymorth incwm nawr (ond nid budd-dâl tai), mae'n debyg y cewch chi ad-daliad. Bydd yr Adran Nawdd Cymdeithasol yn anfon ffurflen atoch. Llenwch hi a'i dychwelyd **ar unwaith** i'r Adran honno.

Os nad ydych yn cael y naill na'r llall ond ar incwm isel, mae'n bosib eto y cewch chi ad-daliad. Gofynnwch am ffurflen o Neuadd y Ddinas drwy ddefnyddio'r ffurflen arbennig yn eich llythyr hysbysu am gofnodi. Dylech fod wedi cael hwnnw erbyn hyn.

**Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd ataf cyn gynted ag y gallwch.**

**PWYSIG IAWN: PEIDIWCH** ag aros nes i'ch bil Treth y Pen gyrraedd. GWNEWCH GAIS NAWR i osgoi colli ad-daliad. Cofiwch fynd i'r swyddfa briodol a welir yn yr ateb i gwestiwn 4.

# UNEDOL

ERDYDD – PRIFDDINAS CYMRU – DINAS CAERDYDD

CITY OF CARD… DINAS CAERDY…

## CWESTIYNAU

eich bil treth y pen. Fe fydd cynllun ad-daliad. Bydd y cyfraddau'n
lun budd-dâl tai presennol.

### 6. PWY FYDD YN CYFRIF FY AD-DALIAD I?

A. Yr un fath â'r budd-dâl tai, fy staff i fydd yn cyfrif eich ad-daliad drwy gymryd i ystyriaeth faint o arian sydd gennych yn dod i mewn a faint o gynilion sydd gennych. Cymerir cynilion i ystyriaeth yn unig os oes gennych rhwng £3,000 ac £8,000. Os oes gennych fwy na hynny mae'n bosib na fyddwch chi'n gymwys i gael ad-daliad. **Ond os nad ydych chi'n siŵr, gwnewch gais beth bynnag.**

Fe fyddwn yn cyfrif eich ad-daliad drwy gymharu'r hyn mae'r llywodraeth yn ei ddweud y gallwch fyw arno gyda'r incwm a gewch. Felly, mae eich ad-daliad yn cael ei seilio ar eich amgylchiadau unigol chi.

### 7. C. BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I MI WNEUD CAIS?

A. Ar ôl i'ch cais gael ei gyfrif, byddwn yn anfon llythyr atoch ynglŷn â'ch-daliad. Wedyn bydd unrhyw ad-daliad yn cael ei dynnu'n uniongyrchol oddi ar eich bil. Bydd raid i chi dalu'r gweddill yn unig; neu, os byddwch wedi cael ad-daliad ar y cyfraniad a wnewch i'ch landlord, gall hwnnw gael ei dalu drwy siec wedi ei chroesi, yn union fel Budd-dâl Tai.

### 8. C. BETH ALLA' I WNEUD OS BYDDA' I'N ANGHYTUNO Â SWM YR AD-DALIAD?

A. Os byddwch yn anghytuno â swm yr ad-daliad a roddwyd i chi, gallwch wneud un o ddau beth:

(a) gofynnwch i'ch Swyddfa Budd-daliadau edrych arno eto. Rhaid i chi wneud hynny cyn pen 6 wythnos ar ôl cael gwybod faint yw eich ad-daliad.

(b) os byddwch yn dal yn anhapus, byddwch cystal â chysylltu â mi er mwyn i'ch cais gael ei roi gerbron BWRDD ADOLYGU ANNIBYNNOL.

### 9. C. PRYD DDYLWN I WNEUD CAIS?

A. NAWR! **Byddwch cystal â gwneud cais mor fuan â phosib cyn 1 Ebrill 1990.**

Cofiwch roi'r dystiolaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen. Os nad yw ar gael, anfonwch y ffurflen at y Cyngor ar unwaith ac anfon y dystiolaeth yn ddiweddarach (i gyrraedd cyn pen 4 wythnos).

**BYDD YR HOLL WYBODAETH A ROWCH YN CAEL EI THRIN YN GYFRINACHOL.**

### 10. YMHOLIADAU

Os bydd arnoch eisiau rhagor o help i wneud cais am fudd-daliadau neu ad-daliadau, byddwch cystal â:

(1) Chysylltu â'ch Swyddfeydd Rhanbarthol yn lleol neu Marland House **os ydych yn denant i'r Cyngor.**

(2) **Fel arall,** ysgrifennwch at Drysorydd y Ddinas, Adran Budd-daliadau, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF1 3ND; neu

(3) **Galwch** yn y Ffenestri Ymholiadau yn y Swyddfa Budd-daliadau yn Neuadd y Ddinas; neu

(4) **Ffoniwch** y rhif ar gyfer eich cyfenw:

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | i | COX | = | 822481 | KHAS | i | OV | = | 822477 | |
| COZ | i | GREF | = | 822482 | OW | i | SPARQ | = | 822476 | Bwrdd a Llety – 822479 |
| GREG | i | KHAR | = | 822480 | SPARR | i | Z | = | 822478 | |

**PWYSIG IAWN** Os nad ydych chi'n cael budd-dâl tai nawr, cofiwch lenwi ffurflen gais a'i dychwelyd CYN GYNTED Â PHOSIB.

J H MARKHAM
Trysorydd y Ddinas a Swyddog Cofrestru Tâl Cymunedol

# BWTH RUTH

**Wel helo pa hwyl sydd? Mis bach, a'r cyfnod o'r flwyddyn pan mae'r gaeaf i'w weld yn un hir. Dyma'r amser pan mae'n braf codi pac y mynd i fwrw'r Sul mewn gwesty mewn rhan arall o Gymru neu fynd at ffrindiau. Mynd i rywle ar lan y môr, ar lan llyn neu i'r wlad – ag mi welwch chi yr hysbysebion lliw hardd yna sydd gan Fwrdd Croeso Cymru yn "llygad y meddwl" mi wn – dyna braf fyddai gwario arian, sy'n cael ei ennill yn y ddinas, yn y wlad. Mi fyddai'n helpu economi cefn gwlad ag yn help i greu ymwybyddiaeth o Gymreictod ymhlith y twristiaid eraill sy'n dod i fwrw'r Sul yng Nghymru.**

Dwi'n cofio mynd i westy'r Grand yn Tripoli, Libya ar Awst 29ain 1969 – dydd Gwener oedd hi (Sabath yr Arab) ag mi rown i yno dros y Sul cyn symud ymlaen i Benghazi, i ddysgu Saesneg fel ail iaith i'r Arabiaid (a pheth Cymraeg heb yn wybod i'r Swyddogion)!!!

Hefo mi yn y gwesty'r oedd merch o Loegr, yn yr un sefyllfa â mi, teulu bach ifanc o'r Alban, dyn busnes o Genoa ag un o benaethiaid yr heddlu oedd yn gyfrifol am ardal ddwyreiniol y wlad.

## CRWYDRO

Mi dreuliais i'r dydd Sadwrn yn crwydro drwy'r Souk (marchnad Arabaidd), mwynhau'r 'promenade' a'i 'balustrades' a'i adeiladau clasurol Eidalaidd a dotio at yr holl goed palmwydd ar hyd y prom. Mi ges i fy nghyflwyno i frechdanau Arabaidd – bara 'pitta' yn llawn cig oen a iogwrt.

Fe dreuliwyd gyda'r nos yn sgwrsio'n ddifyr hefo uwch blisman Arabiadd, anferth, am yr iaith Arabeg yn Libya (mae'n newid yn arw o wlad i wlad) ac mi gawsom ni holi am addysg, meddygaeth, hanes a gwleidyddiaeth y wlad. Fe dreuliwyd y Sul yn od iawn i mi – pawb yn mynd i'w gwaith a ninnau'r 'gwenoliaid' yn mwynhau holl 'ambience' prif ddinas gwlad enfawr o ran maint ond bychan o ran poblogaeth. Tydi tri chwarter y wlad yn anialwch Sahara?

## HEDFAN

Dyma fynd i'r gwely ar y nos Sul gan edrych 'mlaen yn fawr at gael hedfan bore drannoeth o Tripoli i Benghazi ond tua hanner awr wedi tri y bore dyma ddeffro i sŵn tebyg i ergydion o wn –



dyma godi ag agor drysau'r stafell, oedd yn arwain i'r balconi, ag yn edrych allan dros Fôr y Canoldir a'r Stryd Fawr – a be welwn i ond milwyr yn anelu gynnau atai ag yn gwneud yn berffaith glir i mi mai mewn yn y stafell oedd fy lle fi os oedd gen i ddiddordeb yn fy nyfodol. I mewn â mi a troi fy radio mlaen – deall dim ond fod yna gyhoeddiad go faith yn cael ei ddarllen mewn Arabeg ag yna record o gerddoriaeth filwrol.

Erbyn hyn roedd y gwesteion eraill allan ar y grisiau a doedd neb yn deall beth oedd yn mynd ymlaen – ond pan glywodd y plisman o Arab yr hyn oedd yn cael ei ddweud ar y radio mi lewygodd!! – roedd y Brenin Idris – Brenin Libya ar ei wyliau yng Ngroeg ag mi roedd y drefn filwrol wedi cymryd drosodd ac o fewn oriau mi roedd y Cyrnol Anwar Ghaddafi wedi cymryd drosodd.

## DIM CEGIN

Wedi iddi wawrio mi gawson ni ddeall fod yn rhaid i ni aros yn y gwesty a hwnnw yn un heb stafell fwyta na chegin. Ymhen tridiau mi gawsom ni a gweddill y trigolion dyhudd gloch (curfew) am awr – ag mi aethon ni ati i siopa am hynny o fwyd gallen ni fforddio, heb wybod wrth gwrs hyd y 'carchar'.

Roedd myfyrwyr y Colegau a'r ysgolion yn mwynhau'r oriau prin yma ag yn reidio drwy'r strydoedd ar gefn loriau yn canu a siantio sloganau.

Dyna'r chwyldro yn Libya yn 1969 – mi roedd y tri mis canlynol yn hynod gyffrous ag mi allai'ch sicrhau chi mod i wedi gwylio bwletinau newyddion o ddwyrain Ewrop yn ddiweddar hefo cryn ddiddordeb. Y stori bersonol sydd yn ddiddorol a braf ydi cael honno, yma yn y Dinesydd ar ei newydd wedd, gan Guto Harri.

**Ar benwythnos gaeafol mewn gwesty clyd y bydda i yn ymdrybaeddu yn y profiadau fu – ieuenctid yw dy bechod Guto!!!**

# ALMAENWR YN DDYSGWR

**Er fod deuddeg mlynedd oddi ar inni adael Ebeneser a Chaerdydd fe erys atgofion hyfryd a melys am y Gymdeithas yno. Byddwn yn cadw i ddilyn hynt a helynt y gwahanol Eglwysi a Mudiadau yn y Ddinas drwy'r 'Dinesydd' – a gawn drwy garedigrwydd cyfeillion.**

Darllenwn, gyda diddordeb, am rywrai sy wedi dysgu'r Gymraeg ac yn llwyddo i wneud cyfraniad sylweddol i gynnwys y Dinesydd. Canmolwn hwynt.

Daeth hyn, a'r ffaith ei bod yn ganmlwydd marw Gerard Manley Hopkins, ag atgof arbennig inni. Yn y flwyddyn 1963 cawsom ni fel teulu gyfle i ymweld â'r Almaen ar gyfer y KIRCHENTAG – yr Ŵyl grefyddol fawr a gynhelir yno bob yn ail flwyddyn oddi ar yr Ail Ryfel Byd. Fe'i cynhelid yn Dortmund, a chawsom ni groeso cynnes iawn gan Pastor Küper a'i briod yn ei Mans yn Asseln. Roedd ganddynt un mab yn gyfoed â Huw, ein mab ninnau. Roedd Christolph yn un o drympedwyr y Kirchentag – un o ryw bum mil! Cyffrous iawn oedd y profiad o wrando arnynt ac ar y gwahanol gorau. Ymhen rhyw ddwy flynedd cawsom ni'r fraint o groesawu'r teulu hwn yn ôl atom i Dorchester Ave, a gwnaethant ein cartref yn ganolfan eu haml deithiau drwy Gymru. Am ryw reswm fe hudwyd Christoph – a oedd ar fedr dechrau ei gwrs Coleg – i geisio lle ym Mhrifysgol Bangor. Fe'i derbyniwyd, ac ymhlith pynciau eraill, fe ddysgodd Gymraeg a dilyn cwrs y Coleg. Ymgymerth â gwaith ymchwil, wedi graddio, a'r pwnc a gymerth oedd perthynas Gerard Manley Hopkins fel bardd â'r gyn hanedd Gymraeg! Mae'n amlwg iddo gysylltu ei astudiaeth â Choleg Munster oblegid yn y fanno y derbyniodd, yn ôl llaw, ei Ddoethuriaeth. Mae copi o'r 'thesis' gennym yma – yn gyfrol go drwchus. Addefwn, fodd bynnag, mai rhannol yw ein deall ohoni gan mai yn yr Almaeneg y mae corff y gwaith, er y dyfynnir yn gyson o weithiau'r beirdd caeth Cymraeg i eglurebu ei thema ar Hopkins. Tystia hyn oll, a mwy, ei feistrolaeth ar y Gymraeg a'i ddeall manwl o droadau cymhleth y cynganeddion.

Dymunwn yn dda i'r DINESYDD ym mhob gwaith da o'r eiddo dros fuddiannau y 'pethau' yn y Brifddinas.

**Emlyn G Jenkins**
**(Aberteifi)**

Diolch i'r Parchedig Emlyn Jenkins am er rodd hael i goffrau'r Dinesydd.

# ◇ Guto'r Gohebydd ◇

Allai'r un llenor lunio darlun mwy addas. Roedd y tywydd, y lleoliad a'r awyrgylch yn ddelfrydol ar gyfer llofruddiaeth. Trwy'r niwl trwchus, ychydig iawn oedd i'w weld. Boncyffion coed oedd a'u dail yn rhy uchel i gael cip arnynt. Ambell gar oedd yn ddim ond golau mwll a murmur isel tan iddo basio bum llathen i ffwrdd. A'r swyddfa heddlu lle'r oedd deg ar hugain o newyddiadurwyr yn disgwyl yn eiddgar i gael eu porthi â'r wybodaeth ddiweddara. Nid ffrwyth dychymyg mo'r darlun, ond sefyllfa go iawn – un felly yr oeddwn i fel gohebydd yn cael manteisio arni.

### LLOFRUDDIAD

Compiegne, tref rhyw ddeugain milltir i'r gogledd o Baris sy gennyf mewn golwg. Yn fanno, ddechrau'r haf y llynedd y llofruddiwyd athrawes ifanc o Glwyd, Fiona Jones, a hithe ar wyliau gyda'i gŵr i dathlu blwyddyn o briodas. Ron ni yno rai misoedd yn ddiweddarach – pan arestiwyd Ffrancwr o bentref cyfagos ar guhuddiad o'i lladd. Anaml iawn mae gohebydd ifanc yn BBC Cymru'n cael mynd i afael â stori fel yna – yn enwedig dramor. Ar hap a damwain yr es i yno – yn bennaf yn anffodus am ei bod hi'n haws teithio i weddill y byd o Lundain nac o faes awyr ein Prifddinas ni yng Nghaerdydd. Roedd y profiad yn hynod. Am y tro cyntaf deuthum wyneb yn wyneb â gohebwyr llwydlyd papurau Tabloid Llundain – criw oedd yn waeth o lawer na phortread



*GUTO HARRI – Prif Gynorthwywr Newyddion Teledu BBC Cymru yn Llundain.*

Spitting Image ohonynt hyd yn oed, ag oedd gymaint o ergyd i heddwch Compiegne a fu'r llofruddiaeth bron!

Roedd dod ar draws gwŷr y Sun a'r Star a'r Mail yn agoriad llygad rhyfeddol. Wythnos ynghynt bûm yn gohebu ar Uwch-gynhadledd arweinwyr y Gymuned Ewropeaidd yn Mharis – profiad hollol wahanol, a stori ddenodd newyddiadurwyr o begwn arall y proffesiwn. Yr un oedd natur yr aros, a'r rhuthr wedyn i gyfleu'r stori ond bod y wybodaeth yn y pen draw ar blât. Dros ddiod a bwydydd di-rifedi ym mhalas Elysee bum yn darllen pamffledi roddodd y cefndir a hyd yn oed manylion y fwydlen gerbron yr arweinwyr. Pan ddaeth y cinio hwnnw i ben daeth Arlywydd Ffrainc, Francois Mitterand i roi manylion y drafodaeth inni – anerchiad gyfieithwyd i bedair iaith. Roedd hi'n dri y bore erbyn i hwnnw ddod i ben a minne wedi cyfnewid gwybodaeth a chydweithiwr fu'n gwrando dehongliad Mrs Thatcher o'r cyfarfod. Ond doedd hynny'm yn atal cynhyrchydd y bore ar Radio Cymru rhag ffonio am saith i gael adroddiad erbyn y bwletin awr yn hwyrach. Mwy o ruthr wedyn – bwletinau eraill, O'r Newydd ac eitem deledu i'w llunio gyda llunie addas cyn dal yr awyren gynta'n ôl i Lundain.

### CYFFROUS

Ychydig iawn o gwsg felly, ond mae'n fywyd ac yn swydd hynod gyffrous. Ar ei orau, fel y dywedodd un o newyddiadurwyr enwoca'r Guardian, y diweddar James Cameron, braint y gohebydd yw sgrifennu'r drafft cyntaf o hanes. O sefyll ychydig droedfeddi wrth Gerald Conlan ag yntau'n gadael yr Old Bailey rôl clywed iddo dreulio bron i bymtheg mlynedd yn y carchar ar gam, mae'r ymdeimlad hynny'n gryf. Yn yr un modd o wybod pum munud wedi'r Prifweinidog bod ei Changhellor yn ymddiswyddo, mae'r galon yn curo'n gyflym.

DYDDIAD COPI
RHIFYN MAWRTH
09 – 02 – 90

# CYMORTH I RAI Y TROSEDDWYD YN EU HERBYN

**Teitl hir i fudiad sy'n bodoli yn Ne Morgannwg i gynorthwyo yr anffodusion hynny y troseddwyd yn eu herbyn. Gwahoddir awgrymiadau am gyfieithiad o "Victim Support".**

Ar hyd y blynyddoedd rhoddwyd cryn sylw i droseddwyr heb fawr o sylw a chymorth yn cael ei roi i'r sawl a ddioddefodd mewn canlyniad i drosedd. Diolch i'r drefn mae pethau wedi newid a'r Llywodraeth yn cydnabod fod angen datblygu gwasanaeth i'r anffodusion hyn. Erbyn heddiw mae'r Swyddfa Gartref yn arllwys £4 miliwn i hybu gwasanaeth o'r fath.

Sefydlwyd y cynllun cyntaf tua 1975 ym Mryste. Heddiw mae dros 400 ohonynt yn y wlad gyda rhyw 15 hyd yma yng Nghymru.

### YMOSODIADAU

Yn rhy fynych o lawer darllenir a gwelir adroddiadau yn y papurau ac ar y teledu am ymosodiadau ar unigolion – mygio, dwyn, torri mewn i gartrefi, treisio a lladd. Buan y gwelir llun o hen berson cleisiedig ac un o'r canlyniadau yw ei fod yn creu arswyd ar yr oedrannus nes bod ofn mynd allan y nos a hyd yn oed yn ystod y dydd. Os yw o ryw gysur mae mwy o 'victims' rhwng yr oedran 17-35 nag o blith yr oedrannus. Ond wedi dweud hynny mae trosedd yn erbyn un hen berson yn un yn ormod. Cefnogir pob ymdrech cynlluniau megis Atal Troseddau – Crime Prevention a Crimewatch ond ar waethaf yr ymdrechion a wneir deil cynnydd mewn troseddau.

### POBL IAU

Mae pobl iau a wynebodd drosedd yn medru dod dros sefyllfa yn gynt na'r oedrannus ond nid bob amser.

Dyma lle y daw 'South Glamorgan Victim Support' i'r adwy i gynorthwyo. Gwneir hynny gyda help cwnselwyr hyfforddiedig – gwirfoddolwyr sydd wedi cynnig eu gwasanaeth ac yn barod i ymweld â'r unigolion y troseddwyd yn eu herbyn. Cawn gyd-weithrediad llwyr gan Heddlu De Cymru a thrwy gytundeb cawn enwau y rhai sy'n dymuno cymorth. Hyd yma eleni cynorthwywyd dros 2000 o bersonau a ddaeth o dan lach troseddwyr. Dylid ychwanegu fod y gwasanaeth yn un hollol gyfrinachol.

Mae cynnydd sylweddol yn yr enwau a dderbynnir gan yr heddlu nes bod angen am ragor o wirfoddolwyr. Carwn felly drwy gyfrwng y Dinesydd apelio am rywrai o blith Cymry Cymraeg y Ddinas a'r Fro i ymuno â'r cynllun. Byddaf yn falch i glywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb.

**D HAYDN THOMAS**
**Cadeirydd**
**VS De Morgannwg (371821)**

# Sêr yn Salem

Diffyg glaw yn ei bryd a'r sychder didor am gyfnod maith yn Ethiopia bum mlynedd yn ôl a'i effaith ar y wlad, ei phobl a'r plant a enynnodd dosturi a theimladau o drueni ymhob rhan o'r byd. Daeth 'Band Aid' i fodolaeth gyda sêr ifanc y byd pop dan arweiniad Bob Geldorf i ddihuno cydwybod y gwledydd a'u llywodraethau. O Gymru estynnwyd "Dwylo Dros y Môr" i arllwys arian ac ymborth a chymorth angenrheidiol i geisio lleddfu'r boen ac achub bywydau.

Yr adeg honno penderfynwyd trefnu Cyngerdd yn Salem, Canton er mwyn cyfrannu tuag at gronfa'r argyfwng yn Ethiopia. Cafwyd ymateb parod rhai o sêr y radio a'r teledu yng Nghymru i roi o'u hamser a'u doniau i'n cynorthwyo. Felly'r enw "Sêr yn Salem". Byth oddi ar hynny tua'r Nadolig cynhaliwyd Sêr yn Salem er codi arian tuag at y Trydydd Byd.

Gwaetha'r modd, bum mlynedd yn ddiweddarach, mae hanes yn ail adrodd ei hunan yn Ethiopia a bywydau miloedd mewn perygl unwaith eto. Penderfynwyd fod elw'r gyngerdd a gynhaliwyd ar yr 2ail o Ragfyr 1989 i'w gyfeirio am yr ail dro i Ethiopia.

Daeth nifer sylweddol i Salem am noson lwyddiannus dros ben arall gyda'r Sêr yn wir ddisgleirio.

Arweiniwyd am y trydydd tro gan Arfon Haines Davies. Cynorthwywyd ef gan Caryl a Myfyr sydd wedi ymaddangos ymhob cyngerdd hyd yn hyn, Ieuan Williams, Abermangoed y baledwr o Gwrt y Cadno, Rhian Morgan a Phil Harris, Sharon Morgan, y tri am y tro cyntaf, ynghyd â Liz Miles a Iona Jones am yr eildro. Yr ydym yn dra dyledus iddynt i gyd am eu cyfraniadau disglair er sicrhau noson wych o adloniant. Hyderwn y bydd ein cyfraniad o help i bobl Ethiopia.

**D HAYDN THOMAS**

## CYDYMDEIMLWN

Chwith i lawer o ddarllenwyr Y Dinesydd fydd clywed am farwolaeth yr arbenigwr Byron Evans. Roedd yn cynrychiolioli to o wŷr disglaer wnaeth eu marc yn eu maes. Dyma enghraifft arall o do a phennod yn dod i ben yn ein hanes. Cydymdeimlwn â'i deulu i gyd.

# BRO MORGANNWG YN CEFNOGI EISTEDDFOD CWM RHYMNI

**Dyfarnwyd grant o £200 i Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni gan Gyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg.**

Cyflwynwyd y siec i'r Eisteddfod gan y Cynghorydd Brinley D J Edmunds, Maer Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg, mewn derbyniad arbennig ym Mharlwr y Maer, Ffordd Holton, Y Barri, fore Gwener, 5ed Ionawr.


Derbyniwyd y siec ar ran yr Eisteddfod gan Mr Hubert Morgan, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Cwm Rhymni a Mr Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Dywedodd Mr Hubert Morgan. "Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ffodus iawn o gefnogaeth awdurdodau lleol Cymru ar hyd y blynyddoedd, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Gyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg am eu cyfraniad at Eisteddfod eu cymdogion yng Nghwm Rhymni."

**DYDDIAD COPI**
**RHIFYN MAWRTH**
**09 – 02 – 90**


# ORIEL

**ORIEL – arbenigwyr mewn llyfrau o Gymru, llyfrau i ysgrifenwyr, llyfrau celf a barddoniaeth yr ugeinfed ganrif. Nawr mewn safle newydd, nid nepell o Heol y Frenhines.**




**Yr ydym hefyd yn cadw llyfrau ar arlunio, pensaernïaeth, y cyfryngau, y sinema, cardiau, posteri a chasetiau. Prynwch dros y ffôn – derbynnir cerdyn credyd.**

**Oriel**
**Heol Tŷ'r Brodyr**
**Caerdydd CF1 4AA**
**☎ 0222-225855**

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru

*Mae angen staff Ysgrifenyddol ar yr Eisteddfod Genedlaethol yn swyddfeydd Caerdydd a Bargoed.*

**Amser-llawn neu ran-amser**

**Am fanylion pellach ysgrifennwch neu ffoniwch**
**10 PARK GROVE, CAERDYDD CF1 3BN**
**☎ 0222 398399**

D I N E S Y D D

## HYSBYSEBU

I HYSBYSEBU YN Y DINESYDD CYSYLLTWCH Â PAM NEU VAL AR 0792 468833 FAX: (0792) 653285.

BYDDWN YN FALCH RHOI CYNGOR A CHYMORTH YNGLŶN Â'CH GOFYNION HYSBYSEBU.

# CWM RHYMNI

***Tantrym – Ie, dyna'r enw a fathwyd gan aelodau pwyllgor ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni ar babell ieuenctid yr Eisteddfod honno a gynhelir fis Awst nesaf. Gobeithir mai'r cystadlu fydd un o brif atyniadau Pabell Tantrym. Yn wir, rhydd prif gystadleuaeth Tantrym gyfle rhy dda i'w golli i grwpiau Cymru.***

Gofynnir i grwpiau gyflwyno pedair cân ym mhedwar o'r arddulliau canlynol: roc/pop, felan, offerynnol, jazz, rege, rap, pync, baled neu werin. Ni ddylai'r cyflwyniad cyfan fod yn hwy na 25 munud – hyn i gynnwys gosod a chlirio'r llwyfan.

Ni chyfyngir y gystadleuaeth i grwpiau newydd yn unig – rhydd gyfle i U Thantiaid Cymru hogi eu harfau a chyflwyno cyfres o ganeuon newydd sbon – gan, o bosib, chwyddo'u cyfrif banc ar yr un pryd.

Nid yw'r ffaith fod y grwpiau mawr yn cystadlu yn eu rhwystro rhag cael slot yn y Babell ar unrhyw adeg arall. Cynhelir sesiynau felly yn yr un modd ag a wnaed yn y gorffennol – os oes unrhyw grŵp yn dymuno cymryd rhan mewn sesiwn felly, ysgrifennwch atom neu cysylltwch â ni dros y ffôn (cyfeiriad a rhif ffôn isod).

Gellid maddau i chi am gredu mai arwyddair Tantrym yw "diwedd y gân yw'r geiniog". Ie – cynigir £600 i'r grŵp buddugol. Yn ychwanegol at y wobr ariannol, cynigia Cwmni Recordio Chariot a Chwmni Cerdd Cynon gyfle i'r ddau grŵp gorau na fydd wedi recordio tâp o'r blaen i dreulio diwrnod yn eu stiwdios yn recordio tâp. Ar ben hyn oll, telir costau teithio pob grŵp a fydd yn cystadlu – ni fydd unrhyw un ar ei golled.

Gobeithir y bydd digon o grwpiau'n cystadlu i'n galluogi i gynnal sesiwn gystadleuol yn y Babell tua chanol dydd, bob diwrnod o'r dydd Llun ymlaen – gyda grŵp gorau pob sesiwn yn ymddangos mewn yn sesiwn fawreddog ar ddiwedd yr wythnos.

***A gafodd grwpiau pop Cymru erioed y fath gyfle?***

Gyrrwn wys i grŵpiau pop y Brifddinas – bwriwch ati i ymarfer yn ddiymdroi: NEU beth am ffurfio grŵp newydd yn barod ar gyfer yr Eisteddfod.

Peidied neb ag anghofio ychwaith am ein cystadlaethau cartref.

Os ydych chi'n meddu ar ddawn y cyfansoddwr, yna bwriwch ati. Rhoddir gwobr o £200 i'r person sy'n cyfansoddi'r gân wreiddiol orau. Gall y gân fod mewn unrhyw gyfrwng, ee roc, gwerin, rege a dylid cyflwyno pob ymgais ar dâp.

I'r artistiaid a'r dylunwyr yn eich plith – beth am lunio poster deniadol o unrhyw weithgaredd neu achlysur? Rhoddir £100 gan Gwmni Sain i enillydd y gystadleuaeth hon.

I chwi ddarpar ohebwyr, rhoddir £150 i luniwr y cylchgrawn gorau ar gyfer ieuenctid. Mae'n dra phosib yr argreffir y cylchgrawn gorau ar gyfer ei ddosbarthu yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

I'r rheini ohonoch sydd â'ch bryd ar fynd i weithio ym myd radio – yna dyma'ch cyfle i greu argraff ar gyfarwyddwyr a phenaethiaid Radio Cymru. Rhoddir £100 gan Radio Cymru Abertawe i'r person a all wneud y tâp rhaglen radio gorau ar gyfer ieuenctid Cymru.

Cofiwch fod y dyddiad cau ar gyfer derbyn y gwaith cartref ar 2 Ebrill 1990 a rhaid i bob cais am gymryd rhan yng nghystadleuaeth y grŵp gyrraedd Swyddfa'r Eisteddfod cyn 1 Mai 1990.

***ON Y mae crysau 'T' hynod trendi Tantrym ar werth o Swyddfa'r Eisteddfod am £4.75. Gellir eu harchebu trwy'r post.***

## Y CALENDAR

**IONAWR . . .**

**30:** Cwmni Bara Caws yn cyflwyno ei sioe newydd 'Siarad Efo'r Wal' yn Ysgol Glantaf. Sioe liwgar gerddorol gan Cefin Roberts gyda Gareth Glyn yn gyfrifol am y gerddoriaeth.

**CHWEFROR . . .**

**2:** Cymrodorion Caerdydd yng Nghapel y Crwys "Beth yw Comedi?" gan Emyr Edwards.

**3:** Rali Genedlaethol Cymdeithas yr Iaith – Neuadd Redwood, Y Brifysgol – 2.00 o'r gloch.

**5:** Cylch Cinio Dynion Caerdydd yn cyfarfod yng Ngwesty'r Parc am 7.30. Siaradwr – Geraint Morris, Cynhyrchydd Teledu.

Aelodau newydd cysylltwch ag – Elfed Evans, Caerdydd 618019.

**7:** Cymdeithas Minny St "Pe cawn i egwyl" yng ngofal Lynn Jones.

**7:** Merched Y Wawr, Cangen Bro Radur. 'Gwyliau Hapus' Emyr Griffith.

**8:** Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Glantaf "Noson Roegaidd".

**12:** Merched y Wawr, Cangen Caerdydd yn Festri Minny St. Noson yng nghwmni Mr Fred Edwards – Y Gamlas.

**12:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: "Genyn Cancr y Thyroid", Dr Namor Williams.

**16:** Cylch Llyfryddol Caerdydd yn ystafell G1 Adeilad y Dyniaethau Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd. "Byd y Cofiannydd" gan Huw Ethall.

**2** Cymrodorion Caerdydd – Cinio Gŵyl Ddewi.

**28:** Cymdeithas Minny St. Cinio Gŵyl Ddewi. Gwesteion Vera a Seiriol Davies.

**28:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Alun Guy.

**MAWRTH . . .**

**2:** Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Glantaf Noson yng nghwmni'r Dr Meredith Evans yn y Dyffryn

**6/7/8:** "Cyffro ar y Costa" – cwmni'r Gadwyn yn Stiwdio Ddrama Ysgol Gyfun Radur am 7.30 o'r gloch.

**7:** 'Cawl A Chân', Gwraig Wadd – Eirlys Parri.

**12:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Papurau Cynion gan Ms Sian Davies, Mr Rhodri Evans a Mr Aled Williams.

**12:** Merched y Wawr Cangen Caerdydd yn Festri Minny Street: Noson Codau yng nghwmni'r dysgwyr.

**14:** Cymdeithas Minny Street: "Meddyginiaethau Cefn Gwlad" – Dr Anne Williams.

**16:** Cylch Llyfryddol Caerdydd yn ystafell G1 Adeilad y Dyniaethau Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd: "Trysorau Llên" – Robin Gwyndaf (Cyfarfod Blynyddol yn dilyn).

# Caerdydd i Lanfaches ar Olwynion

**Dau ddiwrnod wedi'r Nadolig a beth fyddai'n eich poeni? Penderfynu ar sut i fynd ati i ail-ymosod ar weddillion y twrc, neu a fyddech yn cynllunio ar sut i gael gafael ar y lle gorau a'r man mwyaf cysurus er mwyn mentro ar oriau o wylio mawrion y genedl ar y teledu? Dyna'r hyn yn ôl fy ngweledigaeth bersonol i y byddai trwch y boblogaeth am ei wneud mor fuan ar ôl y pwdin. Ond roedd y Parch Gwilym Wyn Roberts yn nabod praidd eglwys Minny Street yn well. Efallai mai'r gair *trwch* oedd yr hyn roddodd fod i'w weledigaeth, a bod rhai ymysg y defaid hynny wedi teimlo bod modfeddi newydd eu hychwanegu at y trwch hwnnw, oherwydd fe benderfynodd mynd i feicio. Ie beicio – sef ceisio cadw'ch cytbwysedd ar gefn dwy olwyn denau a thrwy chwys eich talcen a nerth cyhyrau'r coesau, yrru'r olwynion rhagddywededig ar eu ffordd. Ond roedd pwrpas i'r beicio yma, roedd pob un beiciwr, mawr a bychan, wedi'i noddi i godi arian tuag at ymgyrch Undeb yr Annibynwyr i helpu tlodion gwledydd canolbarth De America.**



## CAP GWYN A COCH

Roedd yna, felly, esgus da a rheswm da dros i ugain a mwy o feicwyr ymgynnull ym maes parcio Canolfan Chwaraeon Llanrhymni erbyn deg o'r gloch ar fore Mercher, Rhagfyr 27ain. Daethant yno yn blant, yn ddynion a gwragedd ifanc ac yn rhai dipyn bach yn hŷn – y rhan fwyaf ohonynt o Minny Street a rhai ffrindiau o gapeli eraill. Roedd hi'n fore oer tywyll dan gymylau llwyd ond fe wnaeth y Parch Ieuan Davies ei ran i 'lanw'r dydd â llawenydd' wrth ymddangos mewn cap gwyn a choch oedd hyd yn oed yn fwy llachar na'i grys coch. Bu'r olygfa'n ddigon i wneud i un o'i ddiaconiaid ofni na fyddai yn ei ôl o 'Twicers' cyn y gwasanaeth cymundeb nesaf. Roedd 'na gryn amrywiaeth yn y gwisgoedd, gydag un neu ddwy yn edrych fel pe baent ar eu ffordd i sgïo neu i reidio camel yn hytrach na beic. A sôn am feiciau! Roedd rhai'n broffesiynol iawn – trywsus cwta, a chap pig hir ac enwau dieithr o'r Tour de France ar gefn eu crysau. Gyda llaw os byth y gwyddoch am rywun sy'n brin o arweinydd Cymanfa Ganu unrhywle yng Nghymru ac am arbed treuliau car, ga i awgrymu enwau'r brodyr Guy (*Good Guy's?*). Rhowch ddigon o rybudd ac fe ddaw'r ddau ar eu beiciau rasio – dim ond llawn llygad deryn du o ginio wedi cymanfa'r bore, ac fe allwch eu hanfon nôl adref ar ôl cymanfa'r hwyr – ar eu beiciau!

A sôn am hynny, mi fyddai'r bachan Tebbit 'na wedi bod yn falch o'r cwmni mentrus hwn ynghyd â'r cefnogwyr a ddaeth i'w tywys ar yr antur enbyd. Roedd y dau ar hugain am fentro, fel tair llong ar ddeg yr hen Fadog druan, ar siwrnai i Lanfaches – capel cyntaf yr Annibynwyr yng Nghymru. Roedd pedair bws Mini a phlismon ar feic modur (yng Ngwent yn unig – roedd De Morgannwg yn gwybod eu bod yn ddigon diogel) i'w gweld ar eu ffordd i ben eu taith o un filltir ar bymtheg.



## PWYSAU'R BLYNYDDOEDD

Yn finteioedd o bump a chwech, i ffwrdd â nhw a phwysau'r nawdd yn crymu llawer ysgwydd. Erbyn hanner ffordd roedd y gwroniaid yn llawen er bod un neu ddau'n dechrau teimlo pwysau'r blynyddoedd yn ogystal â'r nawdd, ond pob un yn hyderus, roedd pob un wedi cyrraedd Llanfaches ger Penhow, rhai – cerddorion a diaconiaid wrth gwrs – wedi colli'u ffordd ac ychwanegu milltir neu ddwy at y daith. Yn y capel tlws roedd croeso'n eu haros, Rhys Morgan â'i gamera a digon o rai eraill i roi cyngor iddo, Lyn Jones dim ond i wneud yn siŵr fod pawb yno, a'r gwragedd gyda the a choffi a phice bach gwraig y gweinidog. Mae'n siŵr bod Heulwen a Nansi Jones, Eunice Davies a Gwenda Morgan wedi blino cymaint â'r beicwyr, ond yno hefyd roedd y Parchedig Shem Morgan ar ddiwedd blwyddyn brysur iawn i'r capel, ac iddo yntau fel ei gweinidog, i roi croeso brwd iawn iddynt. Wedi gwasanaeth byr yng ngofal Iwan Jones a'r ieuenctid yn darllen a gweddïo ac amlinelliad diddorol o hanes y capel a'r achos yn Llanfaches gan y Parchedig Shem Morgan, yn ôl â phawb

– y rhai blinedig ar y bysiau mini, ond ambell wron yn mynnu dal wrth y beiciau. Casglwyd dros £700 a gobeithio y bydd rhai yn ychwanegu at y nawdd ac eraill, sy heb gael cyfle i gyfrannu, yn gwneud hynny er mwyn cyrraedd y nod o £1,000. Mae diolchiadau di-rif yn dal heb eu gwneud, i yrwyr y bysiau, i'r organyddes ddi-brofiad (!) ond dewr iawn, ac i bawb arall a gafodd hwyl a diwrnod i'w gofio.

**Cofiwch, os bydd Gwilym Wyn Roberts yn trefnu taith debyg y Nadolig nesaf, mae'n ddrwg gen i ddweud na fyddaf i ddim, ar unrhyw gyfrif, yn ei cholli, a synnwn i ddim mai ar feic ac nid mewn bws y bydda i y tro nesa.**

**B E**
**(Cefnogwr)**




# THE LABOUR DECADE

Daeth taflen â'r wyneb ddalen hon o gylch tai Pontcanna a Glanyrafon rai dyddiau nôl. Y Saesneg mewn llythrennau bras COCH a gaiff y blaen i hysbysebu'r Blaid Lafur arni. Ble mae'r gair Cymraeg CROESO? Mae wedi ei gynnwys ymysg tuag ugain o eiriau mewn ugain o ieithoedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi dod i fyw i'r ardaloedd hyn. Nid iaith un o'r rheini ydyw'r Gymraeg! Rhaid i ni brotestio'n gryf yn erbyn trin ein hiaith ni fel hyn. Nid ydym ond ambell, ambell waith yn cael y mymryn lleiaf o Gymraeg ar unrhyw daflen wybodaeth na dim arall gan y Blaid Lafur, ddim hyd yn oed pan ddaw gair gan ein Haelod Seneddol. Dylai pob etholwr/wraig anfon protest mewn ysgrifen i'r brif swyddfa yn datgan wrth Rhodri Morgan y dylai'r Gymraeg gael mwy o barch ganddo ef a'i blaid.

**Mair Elvet Thomas**

# MENNA'N MANYLU



Wedi dod yn ôl o wylie'r Nadolig, anodd iawn oedd setlo lawr i fywyd y brifddinas a gwaith rhwng murie'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Braf oedd bod ymysg gwerinwyr cartrefol yn byw bywyd syml a hamddenol, heb boeni am raglenni radio na theledu, a ninne yma'n cymryd y gwasanaethau cyfryngol mor o ddifrif a chaniataol. (Does dim derbyniad digonol rhwng mynyddoedd a bryniau Penllyn a Maldwyn, felly mae ystadegau'r gynulleidfa'n llawer iawn is o'r herwydd – gobeithio fod M Edwards a G Stanley Jones yn darllen). Y peth braf arall am gael bod gartre oedd cael siarad fy mamiaith heb i run cynhyrchydd ddweud mod i'n rhy 'Cymraeg' a rhy 'Cymreigaidd' – heb dreiglo wrth gwrs!

Maddeuwch i mi am roi gweddill y golofn fel coffâd i fodrybedd i mi. Blwyddyn ddigon digalon fu 1989 ar un ystyr i'n teulu ni – ymhlith y miloedd o bobl fu farw drwy Gymru bu tair modryb i mi farw o fewn tri mis i'w gilydd – tair chwaer i Tada. Roedd Dodo Jini'n 88 a bu'n heini, iach a gweithgar ar y fferm hyd y misoedd olaf. Yna, Dodo Lil oedd yn 86, ac er iddi golli ei meddwl ers rhai blynyddoedd, roedd wastad yn gorfforol gryf ac yn gwenu bob tro. Ddiwedd y flwyddyn bu farw Dodo Siw yn 76 a ddioddefai o glefyd Parkinson, ond er gwaethaf ei chryndod yn y dyddiau olaf, ysgrifennodd gerdyn Nadolig i ni, a gallwn drysori'r cerdyn olaf hwnnw am byth.

Roedd fy nhad yn un o unarddeg o blant – bu farw tri'n ifanc, a rwan, pedwar sy'n aros. Mae'n chwith eu gweld yn mynd o un i un (arwydd fy mod inne'n heneiddio er 'mod i'r ifanca o wyth o blant!) Magwyd y rhai hynaf yn hen dŷ Nanthir yng Nghwm Cynllwyd ond yn 1904, adeiladwyd y tŷ presennol Nanthir gan stad Syr Watkin Williams Wynne, Glan-llyn. Er ei fod yn dŷ gweddol o faint, roedd deuddeg weithiau eisiau cysgu dan ei do – a'r gwas yn aml yn gorfod bodloni ar aros yn y stabl. Tair llofft oedd ar ôl i gysgu unarddeg ohonom gan gynnwys Nain, Mam a Tada. Roedd pobol ers talwm yn gorfod derbyn prinder lle a phrinder arian, cynni a thlodi a phrin iawn y clywid neb yn cwyno am eu sefyllfa. Erbyn heddiw, mae pawb yn cwyno eisiau rhywbeth mwy, rhywbeth gwell a phob plentyn yn cael llofft iddo fo/hi ei hun.

Priododd fy mrawd yn ddiweddar â merch o Lanbêr a nhw fydd yn parhau i ffermio'r hen gartre, felly mae mam a gweddill y teulu ar ganol adeiladu tŷ arall er mwyn i'r teulu bach newydd ddechre setlo lawr a dechre magu ar yr hen aelwyd. Mae ganddynt darged o unarddeg o blant i ddilyn esiampl hen deuluoedd y Cwm. Tybed fydd y llofftydd yn ddigon erbyn hynny?!

Ond tristwch ydi cofnodi marwolaeth cynifer o'r hen genhedlaeth ar ddechrau degawd newydd. Maent yn sicir wedi gadael nod arbennig i'n cenhedlaeth ni ei ddilyn.

# DARLITH LLANDAF

**Yn ôl pob hanes roedd y Dr Thomas Jones, brodor o Gwm Rhymni, yn un o wŷr mwyaf dylanwadol ei gyfnod. Beth oedd cyfrinach ei lwyddiant?**

Fe geir rhai atebion gan y Dr Ellis mewn darlith ganddo nos Wener, Chwefror 16, yn Neuadd Ysgol Howell, Llandaf. Cafodd Dr Ellis ei gomisiynu gan deulu Dr Thomas Jones i ysgrifennu ei gofiant a thrwy hynny cafodd olwg ar yr holl bapurau o eiddo'r teulu sy'n gorwedd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Blaenffrwyth y bywgraffiad yw'r ddarlith gan hanesydd sy'n arbenigo yn hanes y cyfnod diweddar.

Bydd y ddarlith yn Saesneg ac mae gofyn sicrhau tocyn mynediad ymlaen llaw. Pris mynediad gan gynnwys lluniaeth ysgafn yw £4.00 i'w cael gan Dilys Wynne Lloyd, 182 Ffordd Caerdydd, Llandaf CF5 2AD (tel. 562154).

Bydd y gweithrediadau'n dechrau am 7.30 ac fe gynhelir y ddarlith dan nawdd Cymdeithas Cynfyfyrwyr Coleg Aberystwyth.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Heather, merch hynaf John a Veronica Williams, Bwlch Bach, Capel Seion, Aberystwyth ar gael ei derbyn i Goleg y Santes Hilda, Rhydychen i astudio ieithoedd modern. Yn gyn ddisgybl o Ysgol Bryntaf bu ei rhieni yn weithgar iawn yn sefydlu a chefnogi Ysgol Feithrin Radur fe symndor nhw i gylch Aberystwyth rhyw saith mlynedd nôl. Mae Heather yn ddisgybl yn Ysgol Penweddig.

# ADDYSG BELLACH
## *Dwyieithog ai Peidio?*

**Bu galw cynyddol am weithwyr dwyiethog mewn nifer o feysydd galwedigaethol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Caiff hyn ei gadarnhau mewn arolwg a wnaed gan Brosiect Datblygu Dwyieithrwydd Addysg Bellach CBAC. Dengys y wybodaeth a gasglwyd fod cyflogwyr mewn meysydd fel busnes, arlwyaeth/twristiaeth a gofal yn ystyried bod dwyieithrwydd a hyfedrau dwyieithrwydd yn bwysig a defnyddiol ar gyfer amrywiaeth o swyddi yn y meysydd hynny. Anogir colegau i ymateb i'r galw drwy ddarparu cyrsiau a fydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc 16-19 oed feistroli'r medrau dwyieithog angenrheidiol ar gyfer gwaith.**

Hyd yn ddiweddar nifer bach iawn o gyrsiau a ddarperid yn ddwyieithog – ysgrifenyddol, gofal plant/henoed ac amaeth yn bennaf. Tystia'r colegau fod y myfyrwyr sy'n dilyn eu cyrsiau dwyieithog yn sicrhau swyddi cyn cwblhau'r cwrs neu'n fuan iawn wedi hynny. Dyma brawf o'u llwyddiant bid sicr.

Bu datblygiadau cyffrous mewn colegau ledled Cymru yn ystod y ddwy flynedd diweddaf. Erbyn hyn y mae 20 o sefydliadau addysg bellach yn cynnig darpariaeth Gymraeg/dwyieithog sy'n gallu amrywio o gwrs dwyieithog cyflawn yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig megis Diploma Uwch RSA mewn Astudiaethau Swyddfa neu Ddiploma Cenedlaethol BTEC mewn Busnes a Chyllid, at uned fechan a'r 'Gymraeg ar gyfer Gofal' mewn cwrs Cyn-Nyrsio a 'Cymraeg ar gyfer gwaith derbynfa' mewn cwrs Arlwyaeth, yn benodol ar gyfer myfyrwyr a'r Gymraeg yn ail iaith iddynt. Gwelir bod darpariaeth fel hon yn barhad naturiol i'r cwrs addysg cyn 16 oed a'i bod yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gystadlu am swyddi sy'n gofyn am ddwyieithrwydd.

Ymatebodd Byrddau Arholi fel RSA, BTEC a'r City and Guilds yn gadarnhaol i geisiadau am asesu ac arholi drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn sylweddoli'r angen a phwysigrwydd diwallu anghenion y farchnad lafur leol yn ogystal â chenedlaethol. **Merfyn Morgan**

# LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

**EGLWYS DEWI SANT**

Llongyfarchiadau cynhesaf ar rifyn Ionawr, mae'r diwyg yn wych a'r deunydd yn ddiddorol.

Amgaeaf £50 iddi wrth ddarllenwyr cyson Y Dinesydd yn Eglwys Dewi Sant.

Pob dymuniad da i'r Naw Degau.

Cofion cynhesaf,
SAUNDERS

**Diolchwn yn gynnes iawn i Eglwys Dewi Sant am ei haelioni a'i hymateb.**

**LLONGYFARCH**

Longyfarchiadau i Jên Williams merch Mrs Sally Williams a'r diweddar Dick Williams ar ei dyweddiad ag Einion Dafydd mab ieuengaf Thomas ac Eirwen Davies Highfields Llandaf. Testun llawenydd i'r ddau deulu, a'n dymuniadau da ninnau i'r pâr ifanc.


BAFTA CYMRU

SWYDD YSGRIFENYDDOL

Swydd weinyddu swyddfa a chynorthwyo Trefnydd BAFTA Cymru. Mae angen rhywun dwyieithog sydd â medrau ysgrifenyddol elfennol, a gorau oll, profiad o ddefnyddio prosesydd geiriau (h.y. Locoscript/Amstrad PCW).

Bydd cyfle i gynorthwyo trefnu (a mynychu) ein rhaglen o ddigwyddiadau a Dangosiadau Ffilm a Theledu.

Telerau teg, i'w cytuno yn ôl profiad a gallu. Oriau hyblyg. Ceisiadau a CV cyn gynted ag sy'n bosib.

Trefnydd BAFTA Cymru, Swyddfa BAFTA Cymru,
Canolfan Gelfyddydau Chapter, Treganna,
Caerdydd CF5 1QE
Teleffôn: (0222) 223898



HESTON TRAVEL

PA SAWL CWMNI TEITHIO SYDD Â MWYAFRIF EI WEITHWYR YN SIARAD CYMRAEG?

AC YN MEDRU PARATOI GWAITH PAPUR DWYIEITHOG?

CYMHARWCH EIN PRISIAU A SYNNWCH AR Y GWAHANIAETH RHYNGOM NI A'R GYSTADLEUAETH.


RYDYM YN ARBENIGO MEWN GWYLIAU I WLAD GROEG A CYPRUS AC MAE'N FFURFLENNI AM YR HAF 1990 AR GAEL YN AWR.

OND ER HYN GALLWN ROI GWYBODAETH BROFFESIYNOL AM UNRHYW WLAD ARALL.

RHAID I'R IAITH BARHAU

HESTON TRAVEL
219 STRYD UCHAF, ABERTAWE SA1 1NN
RHIF FFÔN: (0792) 644866
ABTA No. A2774 A.B.T.A. A2774

HESTON TRAVEL




# CLIWIAU CROESAIR Rhif 97 Chwefror 1990

AR DRAWS:

1. Pedwerydd arwydd y rhai ofergoelus. (1,5)
5. Pentre SH 2675. (8)
9. Fe gas eu Sul ei ddifetha, rwy'n ofni, am fy mod yn ddiofal yn y trefniadau. (10)
10. Y wedd yn anghyfartal am fod un ych o'r pâr yn gwanhau. (4)
11. "Ennill it . . . dawel<br>Yn y galon garreg hon." (WW) (8)
12. Rho heibio dy ddifrodi, gan ollwng ebychiad hir. (6)
13. Chwaer-ynys i Ronech. (4)
15. Syniad hollol groes i ddelwedd 11. (3,5)
18. Nid un o wŷr y cyfryngau, ac eto'n gyfryngwr. (8)
19. ". . . a niwl yn cyd-ddiflannu" (WW). (4)
21. "Yn gwelwi fel . . ." (6)
23. Ffordd o roi credo ar gof a chadw. (4)
25. Brenin Mersia yn dilyn Llywelyn I i gywain yr ŷd oedd ar ôl. (4)
26. Fe wna deg gini nef i un heb eiddigedd. (10)
27. Trodd yr eog nobl a ddaliodd G allan i fod yn fras iawn. (8)
28. Un o ganlyniadau defnyddio snisin. (6)

I LAWR:

2. Dirwyo bos ci, efallai, am fethu â chodi trwydded? (5)
3. Hen gastell, hen dref, hen sir, a bae ers amser Seithenyn. (9)
4. Ceulodd y gred wrth iddo ei chofleidio. (6)
5. Pentre a all fod yn rhan serchog o'r llun, Gwilym. (15)
6. Syllu yn geg-agored ar fusnes y Rhath, drwyddi draw, a gollwng enw S o'r cliw. (8)
7. Arswydai pan fyddai galw arno i groesi afon wyllt. (5)
8. Rhai sydd yn ceisio'r gwir – a Wiliam yn eu plith. (9)
14. Y bib yng ngheg y dyfarnwr. (9)
16. TL yn actio yn reit wan yn nrama gyffrous y ffair. (9)
17. Wedi profi "lludded maith y lle", chwedl IGG. (8)
20. A fydd "dy leferydd yn dy gyhuddo di" pan fyddi yn siarad gyda phwyslais? (6)
22. Pryfed cymdeithasol? (5)
24. Merch heddychlon y Pantheon. (5)

## DATRYSIAD RHIF 96

AR DRAWS: 7. Yn groes i'r graen; 9. Chwaerfaeth; 10. Clust; 12. Y ddiod gadarn; 13. Lleng; 15. Cymaint; 16. Croenyn; 18. Rhodd; 19. Hunanladdiad; 21. Llithro; 22. Llawysgrif; 24. India'r gorllewin.

I LAWR: 1. Arffedogau; 2. Cenfigennus; 3. Direidi; 4. Ego; 5. Baglu; 6. Ynysoedd y Caribi; 8. Newydd-ddyfodiaid; 11. Yr arglwydd ri; 14. Deuddegfed; 17. Llanallgo; 20. Credo; 23. Lladd.

## CANLYNIAD CYSTADLEUAETH RHIF 96

Derbyniwyd naw cynnig – mân-wallau mewn tri ohonynt a'r chwech arall yn hollol gywir, sef eiddo: B H Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; N Mathias, Castellnewydd Emlyn; D Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; a John G Breese, Glanrafon; Rhodri Jones, Penarth; D. Evans, Pwllheli. Yr enw a dynnwyd ar hap oedd John G Breese, ac felly iddo ef yr aiff y tocyn llyfr y mis hwn. Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr oll am ddatrys croesair braidd yn anoddach nag arfer.

## CYSTADLEUAETH RHIF 97

Tocyn llyfr am £5 eto. Pob ymgais i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Chwefror 17eg, os gwelwch yn dda, â'ch enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair.



DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

# TELYNEG Y MIS

Chwyth, aeafwynt, fel y mynnot, –
  Cryn fy ffenestr a fy nôr;
Plyg y deri fel mieri –
  Dyro ddawns i longau'r môr;
Byr yw dydd a dyddiau Chwefror,
  Cynt y dêl yr hwyr na'r wawr;
Chwyth y crinddail hyd y cwmwl,
  Chwyth y ceinciau hyd y llawr.

Yn dy rwysg ac yn dy ryddid
  Tros y Cnicht a'r Moelwyn chwyth;
Cadw'r moethus yn ei gaban,
  Cadw'r neidr ar ei nyth;
Câr y wennol awel feddal,
  Câr y gloyn glaiar si,
Caraf finnau'th ruad dithau –
  Edn y ddrycin ydwyf fi.

Chwyth, aeafwynt, fel y mynnot –
  Cladd y mynydd dan y lluwch,
Cladd y môr o dan yr ewyn,
  Chwyth, aeafwynt, eto'n uwch;
Ond pe clywit ar ryw dalar
  Oenig cynnar yn rhoi bref,
Tro oddi wrth y dalar honno,
  Paid â chwythu arno ef.

*Eifion Wyn*

DINESYDD

***PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH***

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fawr
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
60 Heol y Parc, Caerdydd
CF1 3AT
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

*Hysbysebion*
**Kevin Barry**
Gwasanaethau Cyfryngol
Herald
Tŷ Cambria
Heol Cambria, Abertawe
SA1 1RQ
☎ 0792 468833
Ffacs 0792 653285

Dyddiad copi rhifyn Mawrth
**09 – 02 – 90**
14,400 o ddarllenwyr

# DENU DIFYRRU DARLLEN

## PROJECT LLYFRAU 3D

Ym mis Tachwedd 1989, cyhoeddwyd 12 llyfr gwreiddiol arall i blant bach gan Wasg Taf, Caerdydd.

Dyma'r ail set o lyfrau a gynhyrchwyd gan Broject Llyfrau 3D Cyngor Cwricwlwm Cymru.

**STORI DEWI**
*Mae Dewi druan yn ysu am gael ci. Oes ganddo unrhyw obaith tybed?*

**SARA SARFF**
*Roedd Sara am gael gêm. Ond dyna i chi dric drwg a chwaraeodd ei ffrind arni!*

**SIONI'R SIWMPER**
*Dianc rhag cael ei olchi wnaeth Sioni, a diflannu ar yr un pryd!*


**SANAU NEWYDD SALI**
*Mae Twm Crwn yn cwrdd â chreaduriaid creulon, cas o dan y môr.*

**Y GWDIHŴ A GYSGODD DRWY'R NOS**
*Gwdihŵ bach penderfynol iawn yw hwn, sy'n mynnu bod ar ddihun drwy'r dydd.*

**LOBSCOWS SULWEN SWYN**
*Gwyliwch lobscows Silwen! Mae e'n ddychrynllyd!*

**SBINC SBONC YR ŴY BACH SIONC**
*Nid ŵy cyffredin ydy hwn. CRAC! Beth ddaw ohono tybed?*

**SNWFFYN A'R BÊL BIGOG**
*Dyma Snwffyn eto, yn cael sgwrs reit ddiddorol â phêl y tro hwn.*



**HYWEL YR HOLWR**
*Un da am holi ydy Hywel. Dyna sut mae'n dod i adnabod y byd a'i botas.*

**Y CREADUR BACH RHYFEDD**
*Dewch am dro gyda'r creadur bach rhyfedd allan o'r cwt ieir . . .*

**LOLA'R LINDYS FARUS**
*"O, la la! Bwyd, bwyd, mwy o fwyd!", dyna ydy cân Lola.*

**UN NOSON DYWYLL**
*Mellt a tharanau! Glaw a gwynt! A phwy sy'n chwilio am loches tybed?*

Storiau diddorol a lluniau lliw llawn ydynt a fydd yn denu a difyrru'r plant p'un ai yn yr ysgolion gyda'u hathrawon, neu gartre gyda'u rhieni.

Rhoddir pwyslais gan y Project ar i oedolion ddarllen gyda'r plant er mwyn rhannu'r pleser a'r mwynhad sydd i'w gael o lyfrau. Trwy wneud hynny daw'r plant i garu llenyddiaeth yn fuan yn eu bywyd.

Athrawon yw'r awduron.

Bydd y llyfrau ar werth yn unigol yn y siopau ond gall ysgolion brynu pecynnau yn syth o'r Wasg.

Cydnabyddir â diolch gyfraniad sylweddol gan y Swyddfa Gymreig i gynnal y project hwn.



**Mair Robins**
**Swyddog Project**
**Cyngor Cwricwlwm Cymru**


Sbec 4

Free with the **WESTERN MAIL** every Thursday!
Am ddim gyda **WESTERN MAIL** bob Dydd Iau!

If you don't read the Western Mail six days a week - look at what you're missing!

**On Monday** - A special eight page Sports Section.
**On Tuesday** - A Business and Financial guide.
**On Wednesday** - A Femail Fashion guide
**On Thursday** - A Career Search Section, Farming news, plus a free copy of SBEC magazine.
**On Friday** - A Motor Mail section.
**On Saturday** - A Property Mail section.

Why not make sure of your Western Mail every day! Order a delivered copy from your Newsagent now or telephone Cardiff (0222) 239419 and we will place an order for you.




Os nad ydych yn darllen y Western Mail chwe niwrnod yr wythnos - dyma'r hyn yr ydych yn ei golli!

**Llun** - Atodiad chwaraeon wyth tudalen.
**Mawrth** - Canllawiau Busnes a Masnach.
**Mercher** - Colofn ffasiwn - 'Femail'.
**Iau** - Adran swyddi a gyrfaoedd, Newyddion o fyd amaeth, ac hefyd gopi o gylchgrawn SBEC yn rhad ac am ddim.
**Gwener** - Atodiad Motor Mail.
**Sadwrn** - Atodiad Property Mail.

Byddwch yn siwr o'ch Western Mail bob dydd! Archebwch gopi i ddrws y ty nawr, neu ffoniwch Caerdydd (0222) 239419 ac fe archebwn gopi ar eich cyfer.

The Western Mail is your National daily newspaper - Look into it today

Y Western Mail yw eich papur newydd Cenedlaethol - edrychwch ynddo heddiw!

**WESTERN MAIL**
**The National Newspaper of Wales - Papur Cenedlaethol Cymru**